

ECO'R WYDDFA

RHIF 148

MEHEFIN 1989

Pris 20c

CYNLLUN DATBLYGU GLYN RHONWY

Yn ystod dyddiau olaf Mai dateglwyd y cynigion y dymuna Cyngor Arfon a Leading Leisure plc eu gweithredu yng Nglyn Rhonwy, Llanberis. Nid oes digon o ofod yn Eco'r Wyddfa i roi ger eich bron holl fanylion y cynigion cynllunio diweddaraf hyn. Maent yn niferus, yn fanwl ac yn uchelgeisiol — yn union fel ag sy'n gweddu i gynllun, o'i wireddu, a fydd yn costio £50 miliwn.

Eisoes mae Cyngor Arfon wedi gwneud datganiad ar y bwriadau ar ffurf pamffled ac wedi ei ddosbarthu i bob ty ym mhlwyf Llanberis ac i siopau a swyddfeydd post ym mhentrefi eraill y fro.

Cewch hefyd olwg llawer manylach ar bethau yn swyddfeydd yr Adran Gynllunio yng Nghwellyn, Caernarfon. Yno mae pedair cyfrol ar wahanol agweddau o'r datblygiad arfaethiedig ynghyd â lluniau, deagramau a mapiau. Cofiwch hefyd am yr arddangosfa yn Llanberis, ddydd Llun, Mehefin 15 (Gw. hysbyseb tud. 3).

Y bwriad cyffredinol yw datblygu 275 erw o dir chwarelyddol, diffaith ardal Glyn Rhonwy uwch llyn Padarn a chreu canolfan wyliau/hamddena nas gwelydd mo'i bath yng Ngwledydd Prydain.

Beth, felly, gawn ni yng nghanol ein bro, am £50 miliwn?

1. Bydd yno westy tair neu bedair seren gyda 50 ystafell

wely, cyfleusterau cynhadledd, tai bwyta a barau a chyrtiau tenis.

2. 20 'fferm' wyliau bob un yn cynnwys 15 o fythynnod 'fferm', h.y. 300 o dai gyda lle i rhwng 2 a 6 o bobl ar wyliau byr. Yn y 'pentref' gwyliau yma bydd lawntiau bowllo a croquet a chyrtiau tenis. Yng nghanol y 'pentref' ceir pob math o gyfleusterau yn cynnwys siopau.

3. Cyfleusterau chwaraeon ac awyr agored yn cynnwys nofio, tenis, sboncen, saethu clamenod, seiclo, loncian, saethyddiaeth, a llawer mwy. Ond y prif atyniad o ran chwaraeon o bosib fydd y 1945 metr o lethrau sgio sych — saith cwrs gwahanol, 5 lifft cadair neu lifft llusgo; 2 gwrs tybogan ynghyd â thai bwyta alpaidd.

4. Bydd datblygu'n digwydd hefyd ar lan y llyn gyda bwyty, bar, gorsaf y ceir cebl fydd yn cario pobl dros yr holl ddatblygiad i ben y mynydd (mae ty bwyta arall ar y brig). O ardal y Glyn bwriedir rhedeg stemar olwyn badlo i amgueddfa'r chwarel.

5. Datblygu'r twll chwarel (ochr Llyn Padarn i lôn Clegyr) i greu awditoriwm o safon ryngwladol. Er ei bod yn 110 metr o led, 260 metr o hyd a 60 metr o ddyfnder gyda llyn yn ei gwaelod — bwriedir gorchuddio'r chwarel â tho a wneir yn rhannol â gwydr. Bydd y 'Quaritorium' fel yu gelwir hi yn dal dros 2000 o ymwelwyr. Bydd yr adloniant a gynhelir yno yn cynnwys cerddorfeydd clasurol, corau meibion, gwyliau cerddorol a chystadlaethau a cherddoriaeth boblogaidd. Codir llwyfan y 'Quaritorium' dros y llyn, a fydd yn cynnwys dwr yn tasgu, goleuadau tanddwr a llenni o ddwr. Bydd rhacadau wedi eu goleuo yn disgyn i'r llyn a bydd atyniadau eraill fel laserau, hologramau, fflamau a goleuadau llwyfan sy'n ymateb i swn. Lleolir barau a thai bwyta ar ochr

SIR DDIOGEL

Am y nawfed flwyddyn yn olynol mae Cyngor Sir Gwynedd wedi ennill Gwobr Ddiogelwch gan y Cyngor Diogelwch Prydeinig.

Fe'i rhoddwyd i gydnabod pwyslais y Cyngor Sir ar osgoi damweiniau yn y gwaith, ac am i'r Cyngor fod a llai na'r cyfartaledd o ddamweiniau yn ystod y flwyddyn.

Medd John Halstead, Swyddog Personel Cynorthwyol gyda chyfrifoldeb arbennig am ddiogelwch o fewn y Cyngor Sir. 'Rydym yn falch iawn o dderbyn yr anrhydedd hon a diolchaf i bawb a'n helpodd i'w hennill. Ein nôd rwan fydd cael deg allan o ddeg y flwyddyn nesaf!

Ennill Gwobr am y Bedwaredd Flwyddyn yn olynol



Dyma J. P. Roberts o Lanberis sydd wedi ennill y wobwr diogelwch am y bedwaredd flwyddyn yn olynol yn ei derbyn oddi wrth Gadeirydd (cyn-gadeirydd erbyn hyn) y Cyngor Sir, R. Gwynedd Roberts. Mae J. P. Roberts wedi bod yn gweithio i'r Cyngor Sir ers 1963.

Medd R. Gwynedd Roberts: 'Mae damweiniau'n medru digwydd mor hawdd yn y gwaith. Trwy eu gofal cyson mae'r fformyn hyn' (Fel J. P. Roberts) 'wedi gosod esiampl glodwiw i'w cydweithwyr'.

y llyn bas. Gellir gorchuddio'r llyn i gynnal gweithgareddau sych trwy ddefnyddio llwyfan ar bileri.

Hefyd, yn y 'Quaritorium' bydd cyfleusterau i ymwelwyr i edrych ar y llystyfiant trofannol o dan y rhan lletglir o'r to. Gallant deithio i mewn i'r chwarel dywyll ac ar ei thraws, cerdded ar hyd pont grog dros ran a blennir â phlanhigion trofannol a theithio ar y lift sy'n dringo'r wal.

Yn ôl datganiad Leading Leisure byddant yn cymeryd 'llawer o ofal i ddiogelu'r amgylchedd presennol ac i'w wella trwy ddefnyddio dulliau pensaernïol cydweddol a thrwy blannu nifer fawr o goed. Tirlunir y tomenni llechi ar y safle er mwyn plannu arnynt, ac er mwyn i'r datblygiad gydweddu â'r wlad oddi amgylch.'

Pe buasai'r datblygiad yn cael rhwydd hynt yna buasai'n cymeryd rhwng tair a phum mlynedd ac yn y cyfnod yna honir y byddai nifer o swyddi yn cael eu creu. 'Mae'n rhan o'r strategaeth ddatblygu' yn ôl Leading Leisure 'i roi cynifer o'r swyddi ag y bo'r modd i Gymry lleol'. Dywedant y cyflogir 600 o weithwyr llawn-amser ar ôl agor y 'pentref', sef glanhawyr (450), staff siop (45), staff bar (64), coginwyr a staff cegin (64), arlywyr (27), morynion siambr (10), pobl trin gwallt (4), golchwyr dillad (4), i weithio yn y mannau parcio (12), gyrrwyr (15), tirmyn/garddwyr (25), gofalwyr am blant (26), nyrsus (6), trydanwyr (9), plymwyr (4), peintwyr (5), ffitwyr (4), cynnal a chadw (6), hyfforddwyr (28), gwaith derbyn/ysgrifenyddol (30), gweithio gyda'r clamenod (3), cyhoeddus-

rwydd (4), cychod (8) troellwyr disciau (4), staff ffitrwydd a harddwch (16), cymorth brys (2), arolygwyr chwaraeon (24), cyfrifyddion (25), diogelwch (22), rheolwyr (19), rheolwyr cynorthwyol (12), rheolwr cyffredinol (1).

Rydym yn croesawu bwriadau gorau y cynllun hwn yn enwedig y rhai a fydd yn sicrhau gwaith parhaol i bobl y fro hon yn y fro. Rydym hefyd wirioneddol angen rhai o'r cyfleusterau chwaraeon gyda hawliau i'w defnyddio am brisiau rhesymol. Ond mae yna nifer o gwestiynau sy'n rhaid cael atebion iddynt cyn i ni lyncu'r moron a gynigir i ni.

Codwn ddau bwynt yma:

1. Fel y gwelwch, gwasaid yw natur y nifer mwyaf o'r swyddi a gynigir ac er bod y Cyngor fel perchnogion y safle yn honi eu bod 'mewn sefyllfa i ddylanwadu ar y datblygwyr yng nghyswllt materion megis cyflogi pobl leol' mae lle cryf i amau hyd a lled y dylanwad hwnnw. Gwyddom hefyd, wrth gwrs, mai estroniaid fydd yn llenwi'r swyddi dylanwadol cynllun mor uchelgeisiol â hwn — a hynny am nifer o resymau.

2. Mae 300 o unedau, neu dai yn rhan allweddol o'r cynllun, 'pentref' o dros 1500 o drigolion — bob un ar ymweliad byr. Pwysleisir yn natganiad Arfon na fydd y tai yma ar werth; gofynnwn ni a ellir sicrhau hyn i'r dyfodol yn wyneb anawsterau ariannol a all ddod i ran y datblygwyr? Oni fyddai gwerthu'r tai yn breifat yn un ffordd allan o'r twll (chwarel)? Nid oes angen pwysleisio oblygiadau hynny ar y fro hon.

GLYN RHONWY
Llanberis



ECO'R WYDDFA

RHIF 148
MEHEFIN 1989

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanfynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanfynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir (871043)

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Bethan Parry, Ael
y Bryn.

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr.

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MEHEFIN 29
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
MEHEFIN 20
os gwelwch yn dda.

LLYTHYRAU

DIOLCHIADAU ETHOLIADOL

Diolch am Gefnogaeth a
Chroeso

Annwyl Gyfeillion,

Gaf i achub ar y cyfle hwn i
ddiolch i bawb o ardal yr Eco
am eu cefnogaeth aruthrol i mi
yn Etholiad Cyngor Sir
Gwynedd.

Roedd yn ganlyniad ardder-
chog, ac rwy'n ddiolchgar
eithriadol am y croeso arbennig
a gefais i'ch cartrefi dros y tri
mis dwetha.

Rwy'n addo y gwnaf fy ngorau
glas i wasanaethu'r ardal mor
effeithiol a phosib dros y pedair
mlynedd nesa.

Diolch yn fawr iawn.

Yn gywir,
Eurig Wyn
Y Frenni
Waunfawr

Annwyl Gyfeillion,

Hoffwn ddiolch o galon i ethol-
wyr Cymuned newydd
Llanddeiniolen am ddangos ffydd
ynof a'm hethol yn ddiwrth-
wynebiad ar Gyngor Sir
Gwynedd.

Byddyn brofiad pleserus dod i
adnabod pobl Bethel, Seion,
Carfan a Rhiwlas a hefyd cadw'r
adnabyddiaeth â phobl
Penisarwaun, Brynrefail, Clwt-y-
Bont, Deiniolen a Dinorwig.

Hefyd hoffwn ddiolch i holl
drigolion Llanrug, Tan-y-Coed,
Pontrug a Chrawiau am eich
cefnogaeth a'ch cyfeillgarwch yn
y gorffennol.

Os byddwch angen fy help cofi-
wch, ffoniwch neu dewch draw,
hefyd mae'n fwiad gennyf gynnal
cymorthfa o bryd i'w gilydd yn y
gwahanol bentrefi.

Eto, diolch yn fawr a phob ben-
dith.

PATRICIA LARSEN
Llygad yr Haul,
Penisarwaun.

Annwyl Olygydd,

Hoffwn ddiolch o galon i etholwyr
Padarn am y croeso a gefais
ganddynt yn ystod yr etholiad
sirol yn ddiweddar.

Hoffwn ddiolch yn fawr hefyd i'r
rhaid a fu'n gefnogol yn ystod yr
ymgyrch, ac i'r rhaid a fu'n fy
nghynorthwyo ac wrth gwrs, i bob

un a roddodd ei bleidlais i mi.

Yr eiddoch yn gywir,
ELERI CARROG
Ty Glyndwr
1 Stryd y Castell
Caernarfon.

MABIROCION

Annwyl Gyfeillion,

Fel y gwyddoch yn barod cynhelir
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd
1990, sef Eisteddfod
Genedlaethol Dyffryn Nantlle ac
Arfon, yng ngholeg Glynllifon.
Hoffwn gyflwyno 'MABIROCION' i
chi, sef enw'r Babell Ieuenticid a
fydd ar faes yr Eisteddfod. Yma
ceir môr o hwyl a sbri yng ngh-
wmni grwpiau roc gorau Cymru,
sêr y byd teledu, a llawer mwy.
Cynhelir llawer o gystadleuthau
cyffrous yma hefyd. Dyma ychydig
o gefndir arwyddlun
'MABIROCION':

1. Pan ddowch yn lluoedd i'r
Eisteddfod fe fyddwch yn dod i
fro Math, Gwydion a Llew (Dyffryn
Nant-Llew) cymeriadau amlwg
iawn yn hen chwedlau'r
Mabinogion.

2. Yn yr arwyddlun fe welwch
goeden gyda phedair o ganghen-
nau cryf. Dyma'r dderwen a dyfai
rhwyng y ddau lyn (Baladeulyn, yr
hen enw ar Ddyffryn Nantlle) ac
mae ei phedair cangen yn cynry-
chioli pedair cainc y Mabinogi. Ar
y dderwen yma y bu Llew yn byw
fel eryr, cyn i Gwydion ei droi yn
ôl yn ddyn.

3. Rhwyng canghennau'r dder-
wen, fe welir llygaid tylluan, sy'n
edrych ymlaen at 1990. Fe gofi-
wch Blodeuwedd (gwraig Llew) yn
cael ei thro'i'n dylluan, a'i dant
allan i dywyllwch y nos.

Hefyd cofiwch am 'Lleuco', y
dylluan fach annwyl ddiniwed a
grewyd ar gyfer yr Eisteddfod.
(Mynnwch gael y tegau anwes
fydd ar werth ar faes yr
Eisteddfod.)

4. Mae aeliau'r dylluan yn
debyg iawn i Llew yr eryr, yn hed-
fan fry uwchben mynyddoedd
Dyffryn Nantlle.

5. Mae'r arwyddlun wedi ei
lunio ar ffurf calon, sef calon
ieuenticid Cymru yn curo'n gyflym
ym mwrllwm Pabell Ieuenticid
Mabirocion.

CYSTADLEUAETH

Gwobrau — 1af: Tocyn
Llyfr/Recordiau £25; 2il a 3ydd:
Tocyn Llyfr/Recordiau £5 yr un.

Ewch ati i ddarllen hanes did-
dorol Llew ac atebwch y cwesti-
onau a osodir yn Rhestr Testunau
Swyddogol yr Eisteddfod. Yr ate-
bion i'w danfon i Swyddfa'r Urdd,
Caernarfon. (Ceir manylion pel-
lach yn y Rhestr Testunau.)

Croeso cynnes iawn i chi gyd i
Eisteddfod Dyffryn Nantlle ac
Arfon.

Yn gywir,

JOHN BRYN OWEN

(Cadeirydd Pwyllgor MABIRO-
CION)

'TOMOSIAID Y TERFYN'

Annwyl Olygydd,

Rwyf yn reit falch bod Mr David
John Thomas wedi cael ei atgoffa
am y Tomosiaid o'r Terfyn. Hwy
oedd yr unig deulu fu'n byw yn y
Terfyn Ucha dros gyfnod o ddau
gan mlynedd a throsodd. At y
"ddau neu dri Owain" a grybwyllir
ganddo hoffwn grybwyll Owen
Thomas, fy nhaid, a anwyd yn
Terfyn Ucha yn 1867, ac a fu'n
byw yno hyd ei briodas yn 1888.
Ar ôl iddo briodi aeth i fyw i Felin
Bach, ac yna i Buarth Newydd.
Roedd ganddo naw o blant, 8
merch ac 1 mab.

Mae tair o'i ferched yn byw yn
Ninorwig hyd heddiw — Mrs
Jennie Jones, Buarth Newydd a'i
hefeilles, Mrs Lizzie Jones, Bron
Myfyr, y ddwy dros eu pedwar
ugain. Hefyd chwaer arall, Miss
Nell Thomas, Buarth Newydd.

Enw unig fab Owen Thomas a'i
wraig Jane oedd Robert Owen
Thomas. Clwyfwyd ef yn ddrwg
yn y Rhyfel Byd Cyntaf a thra'r
ydoedd yn Ffrainc, bu farw ei
fam. Wedi iddo wella, ar ôl bron i
flwyddyn mewn ysbyty yn
Aberdeen, bu'n byw yn Buarth
Newydd, yna yn Bron Gynfi, ac
yna yn Penlan, Gallt y Foel.

Ei wyr ef (hefyd Robert Owen
Thomas) oedd yr olaf i gael ei eni
yn Terfyn, a hynny yn 1950.
Cafodd yntau fab, a'i alw ar yr un
enw, ond yn anffodus, bu farw yn
1972 yn chwe mis oed.

Gwelwch felly bod llawer o
hanes Tomosiaid y Terfyn eto heb
ei ddweud!

Yn gywir,

Gwilym Owen Thomas

SIOE FFASIYNAU: yn Neuadd
Ysgol Brynrefail nos Iau,
Mehefin 15fed am 8 o'r gloch Yr
elw at Ysgol Feithrin Llanrug.

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd
ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

'TAN GAMP'

Annwyl Olygydd,
Efallai bod rhai o'ch darllenwyr yn gyfarwydd a'r gyfres radio 'Tan Gamp', sef cwis chwaraeon dan ofal Arthur Emyr. Bydd cyfres arall yn cael ei recordio eleni ac felly bydd angen cystadleuwyr newydd.

Os oes rhai o'ch darllenwyr yn ymddiddori yn y grefft o gofio pob cic, pob cais, pob dim a ddigwyddodd ym myd chwaraeon ers cyn co, byddwn yn falch o'u hystyried fel cystadleuwyr.

Bydd angen tri ymhob tîm, gyda llaw, a'r rhif ffôn i unrhyw driawsydd â diddordeb yw Abertawe (0792) 468807/456456. Neu gyrrwch lythyr i 'Tan Gamp', Radio Cymru, BBC, 32 Heol Aleksandra, Abertawe SA1 5DT. Diolch yn fawr i chi.

Yr eiddoch yn gywir,

BETHAN EVANS

Cynhyrchydd 'Tan Gamp'

ANOAGAETH

Annwyl Olygydd,

Caniatewch i mi annog pob un o ddarllenwyr yr Eco i anfon yn ddiymdroi at Gyngor Arfon i leisio eu farn yn erbyn bwriadau Cwmni Leading Leisure i ddatblygu pentre gwliau anferth ar safle Glyn Rhonwy.

Mae synnwyr cyffredin yn dweud wrthym mai ceisio twyllo pobl leol y maent gyda'u had-dewidion gwag, ac mae'n bwysig dangos nad ydym am dderbyn dim o hyn. Cofiwch bod dyfodol ieithyddol a chymdeithasol y fro hon yn dibynnu ar berswadio Cyngorwyr Cyngor Arfon i beidio a bod mor ffôl a rhoi caniatâd i'r cynllun niweidiol hwn.

Ewch ati heddiw i ysgrifennu at y Cyngor.



Os am dwmpath dawns yn eich ardal chwi, gydag offerynnwyr a galwyr profiadol, yna cysylltwch drwy lythyr â'r cyfeiriad yma:

'Ffidl Ffadl',

Ceri Gwyn,

'Awel Môn',

Star,

Gaerwen, Ynys Môn.

DRAENOG

Glywsoch chi am Reolwr Gwesty yn Llanberis a aeth allan i redeg un bore Sadwrn braf o Fai. Dychwelodd i'r Gwesty am 'fath' a chloi ei hun allan ar ben grisau a dim ond y cadach lleiaf a welsoch erioed i guddio ei gredentials.

Fel arfer mae'r gwesteion yn cwyno eisiau gweld y rheolwr, ond y diwrnod yma — cwyno eu bod yn gweld gormod arno yr oeddynt.

Llawer o ddiolch,

Yn gywir iawn,

GLYN TOMOS

Cadeirydd PADARN

(Cymdeithas Hybu a Gwarchod

Lleol)

Pen-y-bwlch

Dinorwig.

DYSGU ATHRAWON



Rhai o athrawon ysgolion cynradd dalgylch Ysgol Brynrefail ar gwrs hyfforddiant mewn swydd ym Mhenmon ddechrau fis Mai. Gwilym T. Jones o Gyfadran Addysg Prifysgol Bangor sy'n eu canol yn eu dysgu am yr amgylchfyd.

ATYNIAD

Yn ystod yr haf fe agorir atyniad newydd yn Llanberis a fydd o ddiddordeb i Gymry ac i ymwelwyr â Gogledd Cymru. Menter ydyw a drefnir ar y cyd gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac Adran Grid Cenedlaethol y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan.

Mae'r ddau gorff yn cydweithio er mwyn paratoi atyniad o bwys yn Amgueddfa'r Gogledd a fydd yn cyflwyno hanes Cymru, gyda phwyslais arbennig ar Ogledd Cymru, ynghyd ag agweddau ar y diwydiant trydan. Defnyddir rhai

o'r techgau cyfrifiadurol diweddaraf wrth adrodd yr hanes a bydd y cyfan yn costio tua £2m.

Y mae Bwrdd Croeso Cymru yn amcangyfrif y bydd tua 200,000 o ymwelwyr â'r ardal yn medru manteisio ar y cyfleostrau twristaidd newydd hyn.

Y tu mewn i'r mynydd bydd arddangosfa glyweledol arall yn cyflwyno hanes a gwaith yr orsaf bwr a agorwyd ym 1984.

Manylion pellach gan Dr Dafydd Roberts, Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis, (Ffôn: (0286) 870636) a Dianne Thompson, Adran Grid Cenedlaethol y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan (01-620-8489).

CYNGOR BWRDEISTREF ARFON

Cais Rhif 3/15/DC199A

DATBLYGIAD HAMDDEN YNG NGLYN RHONWY LLANBERIS

Mae'r Cyngor a Chwmni Leading Leisure ccc wedi cyhoeddi mwy o fanylion am y cynllun uchod.

Mae copiau o'r wybodaeth ychwanegol ar gael i'w archwilio yn yr Adran Gynllunio, Cwellyn, Caernarfon, o 31 Mai ymlaen.

Yn ogystal cynhelir arddangosfa yn Amgueddfa Gogledd Cymru, Llanberis, ar 15 Mehefin rhwng 10 a 3 o'r gloch.

Dylid anfon unrhyw sylwadau i'r Prif Swyddog Cynllunio, Cwellyn, Caernarfon, i gyrraedd cyn 23 Mehefin, 1989.

D. J. HUGHES
Prif Swyddog Cynllunio


PADARN yn cynnal

CYFARFOD GWRTHWYNEBU CYNLLUN GLYN RHONWY

Nos Fawrth, Mehefin 6ed am 7 o'r gloch
Angorfa, Stryd y Ffynnon, Llanberis

DEWCH I SEFYLL DROS DDYFODOL EICH BRO
CROESO CYNNES I BAWB

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiampl o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod

Ffoniwch am bris i

J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

YSGOL TAN Y COED: Bu 7 o blant Safon 4 yn mwynhau eu hunain mewn Cwrs Cyfrwng Cymraeg yng Nglynllifon o Mai 8fed i'r 12fed. Bu i bawb fwynhau eu hunain.

CYFEILLION YSGOL TAN Y COED: Ar ôl pwyllgor a gynhaliwyd nos Lun, Mai 8fed, penderfynwyd cael Raffl i godi arian tuag at Gronfa'r Ysgol. Bydd y Pwyllgor yn mynd ar ofyn rhieni plant yr ysgol i roddi help llaw gyda'r gwerthu. Rydym yn ddiolchgar i Mr Len Jones a'r Staff am roddi cymorth gyda'r dosbarthu.

YSGOL SUL BOSRA: Llongyfarchwn y plant am wneud eu gwaith mor dda yn y ddwy Gymanfa eto eleni. Thema'r plant oedd 'Dilynwyd Crist' a phrotreadwyd Gladys Aylward ganddynt.

TRIP YR YSGOLION SUL: Bydd y trip yn mynd i Rhyl yng Ngorffennaf, ar yr 2il Sadwrn eleni, sef Gorrffennaf 8fed. Enwau os gwelwch yn dda i Ann Paterson ac Elisabeth Jones.

CYDYMDEIMLAD: Bu i nifer o gyfeillion golli anwyliad yn ddiweddar. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys iawn â Mrs Gladys Thomas, Mrs Dorothy Parrot a Mrs F Graham, y tair wedi colli'u priod. Cydymdeimlir hefyd â theulu y ddiweddar Miss F Williams, Isgaer, â Mrs Eluned Porter ac Alwyn Jones, Raca wedi colli'i ewythr o Lanrug.

CLWB YR HEULWEN: Cafwyd sgwrs a phaned yn y cyfarfod ddydd Mawrth, Mai 16. Llongyfarchwyd Dylan a Meinir, Tros y Waun ar eu priodas a Mrs Gladys Thomas ar ei phen-blwydd yn 90 oed.

Dymunwyd gwellhad buan i'r rhai sy'n sâl yn y pentref a chydymdeimlwyd â rhai a gollodd anwyliad. Rhoddyd y te gan Mrs K Williams a Mrs E Porter. Enillydd y raffl oedd Mrs N Roberts, Llys y Gwynt. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 20fed.

GWELLHAD: Dymunir adferiad iechyd buan i Mrs M J Roberts, Llys y Gwynt; Mrs B Roberts, 10

Bryntirion; Mr J Griffiths, Cerrig Gwynion; Mrs Gladys Thomas a Mr J Munro, wedi triniaeth yn yr ysbyty. Gyda'r tywydd yn tyneru, dymunwn wellhad i bawb sy'n teimlo'n sâl yn y pentref. Brysiwch wella i gyd.

DIOLCHIADAU: Dymuna Mrs Gladys Thomas, 3 Tai Newyddion, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati yn ei phrofedigaeth o golli ei gwr. Dymuna hefyd ddiolch am y rhoddion a'r cardiau a gafodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed.

Dymuna Berwyn Paterson ddiolch i bawb am y llu cardiau, yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ei ymadawiad i Lundain i ddechrau ei yrfa ym Maes Awyr Heathrow.

LLONGYFARCHIADAU i Hefina Jones, Dylan Price Williams a Janice Jones ar eu llwyddiant mewn arholiadau piano yn ddiweddar. Maent yn cael eu hyfforddi gan Mrs Heulwen Williams, Bethel.

Pob dymuniad da a phob benthith i Meinir a Dylan Griffith ar eu priodas yn ddiweddar. Dymuniadau gorau am y dyfodol i Siôn Rees Williams, Gors, Allt Riwth. Roedd yn dathlu ei ben-blwydd yn 21ain ar yr 17eg o Fai.

Dymuna'r hogiau fu'n cael eu hyfforddi gan Ian Roberts, ben-blwydd hapus a phob llwyddiant iddo ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed ar Fai 24ain. Diolch ian am roi cymaint o fwyniant i'r hogiau gyda'r tîm pêl-droed.

MARWOLAETH: Ar y 26ain o Ebrill bu farw Sister Frances Williams, Isgaer gynt yn Nhyddyn Elan, Llanrug yn 90 oed. Bu'r gwasanaeth yng Nghapel Bryngwyn, Llanrug fore Sadwrn, Ebrill 29 gyda'r gladdedigaeth yn dilyn yn y Fynwent, Llanrug.

FFAIR WANWYN: Nos iau, Mai 18fed cynhaliwyd Ffair Wanwyn lwyddiannus yn Neuadd yr Eglwys tuag at yr Eisteddfod Bentrref. Enillwyd y raffl oedd Mrs Ann Jones, Ty'n Gerddi: Hamper; Mrs Mary Davies: Hamper; Mrs Percy

Williams: Potel o Win; Rhiannon, Cegin Ysgol Brynrefail: Dol; Catrin Glyn, Bryn Eglwys: Dol; Lois Dafydd, Pen Dinas Mawr: Hympti Dympti.

Diolch i bawb am eich cefnogaeth.

POB LWC: Pob dymuniad da i chi blant sy'n sefyll arholiadau lefel A a TGAU eleni. Pob llwyddiant i bob un ohonoch.

URDD ADRAN BENTREF: Nos iau, Mai 4ydd cynhaliwyd mabolgampau, dyma'r canlyniadau:

Ras Babanod: 1. Erin; 2. Dion; 3. Mathew. **Dan 10 oed: Rhedeg, Bechgyn:** Ben, Ynyr, Sion.

(Genethod): Vanessa, Tracy, Sian. **Naid Uchel (Bechgyn):** Ben, Sion, Ynyr. (Genethod): Tracy, Vanessa.

Naid Hir (Bechgyn): Ben, Aled, Ynyr. (Genethod): Sian, Vanessa. **Tafu Pêl (Bechgyn):** Ben, Ynyr, Aled.

(Genethod): Sian, Vanessa, Tracy.

Dan 12 oed: Rhedeg (Bechgyn): Llion, Paul, Arwel, Daniel. (Genethod): Caitlin, Eira, Lois, Eleri.

Naid Uchel (Bechgyn): Arwel, Paul, Llion. (Genethod): Caitlin, Eira, Lois. **Naid Hir (Bechgyn):** Paul, Llion, Arwel.

(Genethod): Caitlin, Eira, Lois. **Tafu Pêl (Bechgyn):** Arwel, Tristan, Paul. (Genethod): Caitlin, Eleri, Sioned.

Dan 13 oed: Rhedeg (Bechgyn): Sion Llywelyn, Llyr. (Genethod): Sioned Wyn, Nia. **Naid Uchel (Bechgyn):** Llyr. (Genethod): Sioned Wyn, Elizabeth Owen.

Naid Hir (Bechgyn): Llyr. (Genethod): Sioned Wyn, Elizabeth Ann, Nia.

Dan 15 oed: Rhedeg (Genethod): Andrea, Hefina. **Naid Uchel (Bechgyn):** Dyfed.

(Genethod): Hefina. **Naid Hir (Bechgyn):** Dyfed. (Genethod): Hefina, Andrea.

Pob llwyddiant i'r rhai a fydd yn cystadlu ym Mabolgampau'r Cylch yn Ysgol Syr Hugh Owen nos Fercher, Mai 17. Diolch i Mr Dafydd Morris am roi benthg y cae inni gynnal y mabolgampau ac i Anti Delyth ac Antie Carolyn, Yncl Tony, Yncl David ac Yncl Eifion am drefnu'r cystadlaethau.

LLONGYFARCHIADAU i Caitlin Wore am gael cyntaf am Redeg 80m i ferched ac ail am Naid Uchel ym Mabolgampau'r Cylch yn Ysgol Syr Hugh Owen, nos Fercher, Mai 17. Pob dymuniad da iddi hi a'r rhai fydd yn cystadlu ym Mabolgampau'r Sir ym Mangor ar Fehefin 21ain. Diolchir i bawb a ddaeth i gludo'r plant i Fabolgampau'r Cylch ac i bob un o'r plant am gystadlu.

POB DYMUNIAD da i Sioned a Nia Lewis gyda'u Dawnsio Gwerin unigol yn Eisteddfod Genedlaethol Cwm Gwendraeth.

Llongyfarchiadau hefyd i Owen Turner ar ddod yn drydydd drwy Gymru am wneud llun.

DIOLCH i Rhian Price Williams a Nant Roberts am ofalu am y criw a dreuliodd ben-wythnos yng Nglanllyn o Fai 13-15. Diolch yn fawr.




Rhys, Sioned, Lois, Eryl, Huw, Sioned Wyn a Tristan yng Nglanllyn.

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol



CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

PWYLLGOR NEUADD: Tynnwyd Clwb Cant Ebrill mewn Pwyllgor yn Neuadd yr Eglwys, Mai 4ydd. Enillwyr oedd 1. Myfanwy Williams; 2. Pat Larsen; 3. Delyth Williams. Enillwyr Clwb Cant Mai: 1. Ann Jones, Ty'n Gerddi; 2. Elizabeth Jones, Bryntirion; 3. Mrs L Terry, Waun. Tynnir Clwb Cant Mehefin mewn noson o 'Fideo Priodferch y Flwyddyn' yn Nhawelfa. Ceir mwy o fanylion ymhellach am y gweithgaredd hwn. Carnifal fydd gweithgarwch Gorffennaf a thynnir Clwb Cant y mis yn ystod yr wythnos hon. Tynnir Clwb Cant Awst yn Sycharth.

BUDDUGOLIAETH BUDD BAW BUWCH: Bu gwerthiant blychau'r Budd Baw Buwch yn ysgubol, gwerthwyd pob un o'r 800. Rhyddhawyd Blacan yn brydlon am 1.00 p.m. a daeth cynulleidfia deilwng i'w gwyllo yn 'perfformio'. Ond 'Hir pob ymaros'. Diolch i'r drefn fod y tywydd mor fendigedig a bod aelodau gweithgar y pwyllgor wrthi fel lladd nadroedd yn gwneud cwn poeth, paned a theisen, tombola, raffl, hufen iâ a diod oren i'w cadw ni i fynd. Am tua 3.00 o'r gloch, amser y Gêm Fawr, penderfynodd Blacan orwedd i lawr. **Gorffennodd** y Gêm, ond heb **ddechreu** oedd Blacan druan. Ond am 5.12 p.m. daeth y foment fawr a bloeddiodd pawb "Hwre!" wrth ei gweld yn gweithredu ym Mluch FF25, o'r eiddo Eleri Jones, Tai Arthur. Derbyniodd wobwr o £25 ynghyd â'r "Baw" i'r rhosod.



Owen Turner wedi derbyn ei dystysgrif am waith llaw yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd, Cwm Gwendraeth.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a werthodd ac a brynodd y blychau gan sicrhau elw o £400 at Gronfa'r Neuadd. Gydag elw y stondinau gwnaed elw o dros £450. Ein diolchiadau pennaf i Michael a Janice Jones, Tyddyn Perthi am adael i'r cyhoedd gael defnyddio eu lawnt - tystia llwyddiant y pnawn fod pawb, yn blant ac oedolion, wedi mwynhau eu hunain yn fawr. Enillydd y raffl - sef Potel o Win oedd Sioned Jones, Cwm y Glo. Yr ail wobwr oedd rhif 110 ond nid oedd yr enillydd yn bresennol, felly os yw perchennog y ticed raffl melyn 110 yn awyddus am wobwr o focs o Quality Street, cysylltwch â Llanberis 872407 os gwelwch yn dda.

YSGOL FEITHRIN: Mae'r Ygol Feithrin erbyn hyn yn cyfarfod yn ôl yn Neuadd yr Eglwys ac yn brys-sur yn paratoi'r plant ar gyfer yr

Eisteddfod Bentref. Gobeithiwn drenfu trip i'r plant yn ystod yr hanner tymor hesaf. Os oes diddordeb gennych mewn ymuno â ni ar fore Mawrth ac lau, ffoniwch Alwena, 870453 am fanylion pellach.

EGLWYS SANTES HELEN: Bu plant yr Ysgol Sul yng Ngwyl Gorawl Eryri, a gynhaliwyd yn Eglwys Crist, Llandinorwig, brynhawn dydd Sul, 21ain o Fai. Canmolwn hwy am eu llwyddiant yn y gwahanol gystadlaethau.

CYNLLUN GOFAL A THRWSIO ARFON

Blwyddyn wedi'r cychwyn mae cynllun Gofal a Thrwsio Arfon wedi'w sefydlu yn fodd i gynorthwyo'r henoed ac anabl sydd yn berchen ar eu cartrefi i sicrhau gwaith trwsio a gwella arno. Daeth 92 o achosion i olwg y mudiad yn ystod y flwyddyn gyntaf ac aeth mwy na thracian o'r cleientau ymlaen â rhaglen sydd wedi neu a fydd yn denu grant Llywodraeth Leol. Gwaith bychain oedd gan amryw o'r gweddill dan sylw a bu'n rhaid i ambell un benderfynu peidio â symud ymlaen oherwydd problemau technegol na ellid mo'u datrys neu ddirywiad mewn iechyd neu resymau tebyg.

Gweinyddir y cynllun o swyddfa Cymdeithas Tai Eryri ym Mhenygroes. Un o nodweddion pwysicaf y cynllun yw'r hyblygrwydd y caniateir i'r cleientau. Un arall yw'r cydweithrediad agos rhwng swyddogion GATHa a swyddogion Cyngorau Sir Gwynedd a Bwrdeisdref Arfon.

Ymgymerir â threfnu gwaith adeiladu o bob math, o'r atgyweirio manaf at godi estyniadau deulawr. Ni ddylai neb ofni bod y broblem yn rhy ddibwys neu fân nac ychwaith yn amhosibl i'w gorchfygu oherwydd tloidi. Ychydig iawn o broblemau sydd na ellir eu gorchfygu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Ni chodir tâl am y gwasanaeth trefnu.

Gellir cysylltu â Gofal a Thrwsio Arfon yn Ty Silyn, Y Sgwâr, Penygroes, Gwynedd neu drwy ffonio Penygroes 881 588 neu Penygroes 881 576.

Llys-y-Gwynt

Hyd reilffyrdd y peilonnau
Daethost yn sglefr o swm,
A neithiwr ym Mryn Eglwys
Mor rymus oedd dy rwn;
Wrth iti oedi ar dy hynt
Yn feddw gaib yn Llys-y-Gwynt.

Uwch meini mud Sant Helen
Ymdroelli wnest ti'r gwalch,
Er nad oedd achos i ti
Wawdio 'run 'sgweiar balch';
Ti'r anweledig fwli mawr
Yn bygwth chwalu'r Llys i'r llawr.

Ysbeiliaist y goleuni
O glyd gartrefi'r fro,
Cleciai y dannedd llechi
Mewn cryndod ar y to,
Ac wrth fy nrws bygythiol gri,
A iasol swm dy chwiban di.

Pan lithra gwawrddydd arall
Yn slei drwy Fwlch-y-Nant,
Bydd ôl dy fandaleiddio
Yn hagra bryn a phant;
Am iti oedi ar dy hynt
Yn feddw gaib yn Llys-y-Gwynt.

Selwyn Griffith.



Llyn Selwyn Griffith ddiwedd y rhyfel ym Mharis gyda ? Roedd y bardd o Benisarwaun yn dipyn o grwydrwr yr amser hwnnw.

Llyn: Don Roberts (Don Siwrans), Llanrug.

NANT PERIS

Gohebydd: Ann Fleming,
'Dolwen', 8 Nant Ffynnon
(871457)


LLONGYFARCHIADAU i Owain Gwyn ar ennill 3 medal efydd ym Mabolgampau Colegau Cymru yng Nghaerdydd yn ddiweddar. PEN-BLWYDD HAPUS i Mrs Elizabeth Closs Roberts, 3 Tan y Bryn. Bydd Mrs Roberts yn 88 mlwydd oed ar Fehafin yr 8fed.



Michael yn troi Blacan i'r cae ar y diwrnod mawr.

Am bob math o
WYDR wedi ei
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD
cysylltwch â

Barrys
GLASS



Camelot
PENSARWAUN
Ffôn: Llanberis 870486

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

DAFYDD
JONES
SAER/JOINAR
2 Tai Caledffrwd
Clwt-y-Bont
Ffôn 872424

Gwneud a gosod grisiau,
ffenestri, drysau etc.



Dim un
Joban rhy
fach!

IEUAN
WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a
Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr
a phlant ysgol

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (Caernarfon 76733)

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y gangen y yr Ysgol Gynradd ar Fai 9. Estynnodd y llywydd, Mrs Ann Ifans, groeso yn ôl i Mrs Mair Huws sydd wedi bod yn yr ysbyty a'n dymuniadau da at Mrs Thomas sydd yn yr ysbyty.

Llongyfarchodd y tîm dartiau ar fod yn llwyddiannus yn y gemau rhanbarthol, ac ar fynd ymlaen i'r Drenewydd, a Bethanne Williams ac Olwen Huws sydd yn mynd ymlaen i Sioe Llanellwedd gyda'i cynnyrch Celf a Chrefft.

Cafwyd adroddiad blynnyddol y trysorydd, Mrs. Margaret Parry, a diolchwyd iddi am ei gwaith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Bydd Mrs Joyce Jones yn cymeryd ei lle a dewiswyd Olwen Huws yn is-drysorydd.

Diolchwyd hefyd i Mrs Jennie Williams hithau yn ymddeol o fod yn ddosbarthwr y 'Wawr' ers rhai blynnyddoedd. Bydd Mrs Ann Lloyd Griffith yn cymeryd ei lle.

Cafwyd gair byr gan Mrs M. Roberts, Swyddog Datblygu Merched y Wawr, ar ei hymweliad a'r gangen.

I ddilyn, bu i Mrs Myfanwy Parry ddangos rhai o'r dillad a fideos o briodas ei merch a oedd yn 'Bridferch y Flwyddyn' ar Sioe Dillad ar y teledu yn ddiweddar.

Rhoddyd y baned gan Mrs N Lovatt, Mrs Beryl Thomas a Mrs Joan Griffith, diolchwyd iddynt gan Ann Ll. Griffith. Enillydd y raffl oedd Mrs Eryl Roberts.

Gwnaed apêl am roddion o deisennau neu arian at Stodin yr Anabl yn Pentir ar Mai 27.

'Taith Ddirgel' sydd ar Fehefin 13, a gofynnir i'r aelodau sy'n dymuno mynd roi eu henwau ynghyd a £5.20, arian y swper, i Mrs Nan Humphreys neu Mrs Margaret Parry erbyn Mehefin 2.

DIOLCH. Dymuna Mair Huws, Glasgoed ddiolch o galon am yr holl ddymuniadau da, y cardiau ar anrhegion a dderbyniodd pan fu'n cael triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Bu caredigrwydd arbenig ei theulu a'i ffrindiau, plantos yr ysgol a phentrefwyr Llanrug yn help mawr iddi fendio'n sydyn.

YSGOL GYNRADD. Yn ystod mis Mai bu nifer o'r dosbarthiadau ar ymweliadau addysgol. Bu rhai o blant Safon 4 yn Eglwys Llanrug a

Safon 3 yn y Pili Palas. Aeth Safon 1 i Becws Bryngwyn a'r Babanod Canol i'r Arddangosfa yn Oriel Bangor ac i gartref Mathew Thomas. Cafodd y Dosbarth Derbyn fynd i Antur Waunfawr i weld a phrynu planhigion.

Enillodd y tîm athletau y darian pan ddaethant yn fuddugol ym Mabolgampau'r Urdd Cylch Arfon a gynhaliwyd yng Nghaernarfon.

Ganol y mis treuliodd deunaw o Safon 3 a 4 benwythnos ardderchog yng Ngwersyll Glanllyn. Llauer o ddiolch i Mrs Meryl Green a Mrs Linda Jones a fu'n gofalu amdanynt.

GWERTHWYR RECORDIAU



Llongyfarchiadau i Gareth Wyn Roberts Safon 2 am ei ymdrech arbennig i werthu recordiau. Daeth yn chweched drwy'r wlad a'i wobwr oedd treulio diwrnod yn Stiwdio Sain a chyfarfod â Jabas. Bu llauer o'r plant yn gwerthu'n dda a daeth yr ysgol yn ail drwy Gymru yn y gystadleuaeth eleni.

Ar Fai 17, daeth ymwelydd rhyfedd iawn i'r Ysgol, sef y Ddraig Werdd. Diolch i'r naw mam a roddodd bawn cyfan i gyfrif tra neidiai'r plant. Bu Garej Hafod Llanrug yn garedig iawn yn cyfrannu gwobrau. Carem ddiolch o galon am gefnogaeth pob un a noddodd y plant neu a gyfrannodd at gronfa'r ysgol. Eisoes casglwyd dros £1,000.

Yna ar Fai 24 daeth naw myfyriwr o Friesland i'r ysgol. Roeddynt ar ymweliad â'r Coleg Normal ym Mangor. Buont o amgylch yr ysgol a chawsant sgwrs gan y prifathro. Yna cawsant ychydig o adloniant gan y partion oedd yn mynd i Eisteddfod yr Urdd yng Nghwm Gwendraeth.

ATHLETWYR BUDDUGOL



Tim athletau Ysgol Gynradd Llanrug a gipiodd darian cylch yr Urdd am yr ail flwyddyn yn olynol.

CROESAWN Mrs Thomas, Berwyn, Mrs Williams, Afallon, a Mrs Jones, Cenlys, Pontrythallt, adref o'r ysbyty.

SASIWN. Aeth cynrychiolaeth o chwirydd Capel Tanycoed a Phontrythallt i Sasiwn Genhadol y Chwirydd a gynhaliwyd ym Mhwlheli. Un o'r siaradwyr oedd y Parch A. M. Roberts a fu yn weinidog ar Eglwys Pontrythallt, ac sydd yn awr yn gweinidogaethu yn Penmount, Pwllheli.

LLONGYFARCHIADAU i Judith, Delyth, Catrin, Elen, Rhys, Gwion, Llâyr a Heledd a dderbyniodd wobrau yr Arholiad Llafar yn y Gymanfa a gynhaliwyd yn Bontnewydd. Hefyd Mrs. M. Ll. Williams yn yr adran i oedolion.

CLWB PÊL-DROED LLANRUG

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Clwb Pêl-droed yn yr Ystafelloedd Newid, Eithin Duon ar nos Fawrth, Mehefin 13eg, am 7.30.

Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb sydd â diddordeb mewn pêl-droed - hyn ac ieuencid - i fod yn bresennol.

CLWB 200

Mis Mawrth:

£40: F Roberts, Glyn Alaw, Llanrug; £20: Mrs A Clarke, 224A Caeau Gleision, Rhiwlas; £10: Mr A Clarke, 24A Caeau Gleision, Rhiwlas; £10: Mr Selwyn Morris, Clydfan, Llanrug.

Mis Ebrill:

£40: Mrs Dilys Jones, 18 Hafan Elan, Llanrug; £20: Mrs Beryl Thomas, 54 Nant y Glyn, Llanrug; £10: Mrs Enid Orrit, Hafan Elan,

Llanrug; £10: Bethan Williams, 18 Rhos Rug, Llanrug.

DIOLCH: Dymuna Emlyn a Delyth Jones ddiolch i bawb am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.



Emlyn a Delyth Jones.

PWYLLGOR APÊL YR URDD 1990: Cynhaliwyd y pwyllgor nos Iau, Mai 18 yn yr Ysgol Gynradd gyda Twrog Jones yn y gadair. Siomedig oedd y nifer o'n aelodau oedd yn bresennol. Gyda llai na blwyddyn cyn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dyffryn Nantlle ac Arfon mae'r swm yng Nghronfa Apêl Llanrug wedi cyrraedd £2,959 ond, mae dros fil o bunnoedd i'w casglu eto. Cafwyd llwyddiant gyda'n gêm bysgota yn niwrnod Cyhoeddi'r Eisteddfod yng Nglynllifon gyda elw o £120, a dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r rhai a gyfrannodd yr anrhegion ar gyfer y gêm a'r rheini fu'n helpu. Diolch hefyd i gangen Merched y Wawr am eu cyfraniad hael i'r gronfa, yn dilyn eu hymdrech yn paratoi bwyd ar ddydd Eisteddfod Cylch yr Urdd yng Nghaernarfon.

HOME IMPROVEMENT CENTRE

FFORDD YR ORSAF, LLANRUG

Ffôn: C'fon 2122

ar gyfer...

Paent, Papur wal,
Anghenion addurno,
Coed, Tywod, Gro,
Brics, Blociau,
a Sment,
Offer plymio

Anghenion Tŷ,
Garddio,
Hadau Unwin,
Hardware, nwyddau
Ironmonger
Teganau



CARTREF YR HENOED

**CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652**

Yr ymdrech nesaf at yr ymgyrch godi arian fydd "Helfa Drysor ar Droed" a drefnir gan Dafydd Whiteside Thomas a Twrog Jones. Mae croeso cynnes i bawb ymuno yn yr hwyl a bydd y cwestiynau i'w cael am 50c y copi o ddydd Mawrth, Mehefin 20 ymlaen gan Dafydd Whiteside Thomas, Twrog Jones, Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, neu Maureen Williams, Antmor, Bryn Moelyn, a byddant hefyd yn barod i dderbyn eich atebion cyn, neu erbyn dydd Mawrth, Gorffennaf 4 ar gyfer eu barnu. Cynhelir noson i wobrwyo'r enillwyr a datgelu'r atebion yn yr Ysgol Gynradd nos lau, Gorffennaf 6 am 7 o'r gloch, ac fe baratoir paned o de.

Ar yr un noson cynhelir Sêl Cist Car ar iard yr ysgol gyda'r mynediad yn £2.00 y car. Bydd croeso i unrhyw un ddod yno gyda'u car a'u nwyddau i'w gwerthu. Edrychwn ymlaen at eich gweld yno, yn gystadleuwyr, yn werthwyr, ac wrth gwrs yn brynwyr. Dewch yn llw.

PLAID CYMRU: Nos Fercher, Mai 17 cafwyd Helfa Drysor lwyddianus a hwyliog wedi ei threfnu gan Eryl ac Islwyn Roberts, 3 Bryn Moelyn. Yr enillwyr oedd Cliff a Vera Williams, Awelon a Sheila a Huw Williams, Glyn Afon. Rhoddwyd y wobwr gysur i Pat Parry Jones, Maureen Williams, Pat Jones ac Anwen Evans. Enillwyd y raffl gan Ann Ifans, Penisarwaun a Beryl Griffith, Llecyn. I derfynnu'r noson cafwyd bwyd yn y Faenol Arms, Nant Peris a dymuna'r trefnwyr a phawb arall ddiolch i Mr a Mrs Bayliss am eu croeso a'u lletygarwch.

Cyfarfod nesaf y gangen fydd y Cyfarfod Blynnyddol ar nos Fercher, Mehefin 21 yn yr Ysgol Gynradd am 7.30 o'r gloch. Gobeithiwn weld yr holl aelodau yn y cyfarfod yma.

DYMUNA Mrs Dora Jones, 21 Stad Hafan Elan ddiolch i'w pherthnasau, cyfeillion a chymdogaion am bob careidgrwydd a dderbyniodd yn ystod ei harhosiad yn Ysbytai Gwynedd ac Eryri, Caernarfon yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

BLWYDDYN BWYD A FFERMIO PRYDAIN 1989: Mae'r flwyddyn 1989 wedi ei dewis i ddathlu 'Bwyd a Ffermio Prydain' er mwyn ehangu ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyfraniad y diwydiant bwyd a ffermio i economi a bywyd y wlad yn gyffredinol.

Cyfraniad Sefydliad y Merched yng Ngwynedd yw cynnal diwrnod agored yn Ngholeg Glynllifon ar yr 8fed o Fehefin, 1989, rhwng 1 a 9 o'r gloch. Fe fydd yna lu o stondinau a llawer o weithgareddau yn cymeryd lle gyda arddangosfeydd a chystadlaethau yn ei mysg. Croeso i bob oedran yna i fwynhau diwrnod pleserus ac addysgiadol yng ngerddi Glynllifon.

CLWB BLODAU'R GRUG: Cynhaliwyd cyfarfod o Glwb Blodau'r Grug yn Ysgoldy Capel

Mawr, brynhawn lau, Mai 11 o dan lywyddiaeth Mr Emrys Owen, 9 Stad Hafan Elan. Anfonwyd dymuniadau da am lwyr adferiad buan i Mrs Dora Jones, 21 Stad Hafan Elan sydd wedi dychwelyd gartref o'r Ysbyty. Llongyfarchwyd Mr a Mrs Oswald Davies ar ddathlu eu Priodas Ruddem, hefyd Mrs J M Jones, Ger y Ffynnon, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Y gwr gwadd ydoedd Mr Neville Roberts, Prestatyn, gynt o Eryri, Llanrug, a chafwyd anerchiad ddiddorol ganddo ar 'Hen Bentre Llanrug'. Cafwyd sylwadau pellach gan Mr Emrys Owen a Mr John G Jones. Y gwestwagedd ydoedd Mrs C Owen, 9 Hafan Elan; Mrs A Parry, Tai Bryn bach a Mrs A Smith, Llechwedd.

Talwyd y diolchiadau gan Mrs M Roberts, 2 Tai Plastirion. Bydd Trip blynnyddol y Clwb ar Fehefin 8fed i Bas Llanberis, Betws y Coed, Lledr Valley, Porthmadog, Pwllheli a Nefyn. Gwerthfawrogn enwau i law cynted ag y bo modd. Pris i'r aelodau yw £1.00; i'r rhai heb fod yn aelodau: £1.50.

CYFARFOD Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd bnawn lau, Mai 18fed yn Festri Pontrhyallt. Dechreuwyd y cyfarfod gan Mrs Roberts, Elidir View, a chafwyd sgwrs gan Mrs Smith, Llechwedd ar 'Atgofion'. Rhoddwyd y te gan Mrs Williams, Bod Fair a Mrs D Williams, Meirionfa. Talwyd y diolchiadau

YMDDEOLIAD GOFALWR



Richard Jones, 8 Rhos Rug a ymddeolodd yn ddiweddar ar ôl ugain mlynedd o wasanaeth fel gofalwr Ysgol Uwchradd Brynrefail. Pob dymuniad da iddo

CYHOEDDI LLYFR O DDAWSFEYDD GWERIN



Idwal Williams, Disgwylfa, Llanrug sydd newydd gyhoeddi llyfr o ddawnsfeydd gwerin. Bydd Parti Dawns Adran Bentref Llanrug, sy'n cael eu hyfforddi ganddo, yn perfformio un o'r dawnsfeydd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Cwm Gwendraeth.

gan Mrs Jones, Dalar Deg. Bydd y cyfarfod nesaf bnawn lau, Mehefin 15fed am 2 o'r gloch.

CYDYMDEIMLWN â Mr Derek Evans, 'Kuantan', Bryn Moelyn, Llanrug ar golli ei fam.

PENBLWYDD HAPUS i Ian Evans, 'Kuantan' Bryn Moelyn ar ei ben-blwydd yn 18 oed.

LLONGYFARCHIADAU i Aled Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf ar basio ei arholiad piano. Hefyd i Sophie Evans, Cefn Elan ar basio ei arholiad 'Cello'.

SIOE FFASIYNAU: Cynhelir sioe ffasiynau gan Mrs A Bish, 1st Class Seconds, Caernarfon yn Neuadd Ysgol Brynrefail, nos lau, Mehefin 15fed am 8 o'r gloch. Bydd yr elw'n mynd tuag at Ysgol Feithrin, Llanrug.

ADFERIAD BUAN i Mr Derek Evans, Bryn Moelyn ar ôl ei ymweliad ag Ysbyty Gwynedd.

CYLCH MAM A'I PHLENTYN: Mae'r mudiad mam a'i phlentyn yn cyfarfod bob prynhawn Mercher am 1.30 o'r gloch yn y caban 'Ysgol Feithrin' ar iard Ysgol Brynrefail.

DATHLU: Da gweld fod Mr O H Jones, Llwyn Onn adref o'r ysbyty ar gyfer ei ben-blwydd yn 90 oed.

Dymunwn yn dda iddo ag hefyd i'w briod a fydd hefyd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ymhen tri mis.

ADREF O'R YSBYTY: Croesawn Mrs D Jones, 21 Hafan Elan, Mrs Dilys Jones, 18 Hafan Elan a Mrs Thomas, Berwyn adref o'r ysbyty.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Oswald Davies, Rhyd y Delyn, Llanrug ar ddathlu eich priodas ruddem.

PENBLWYDD HAPUS i Mrs J M Jones, Ger y Ffynnon ar ei phen-blwydd yn 80 oed.

DIOLCH A CHROESO: Diolch i Mrs Menna Williams a'r teulu, Fferm Minffordd, Llanrug am ddosbarthu'r Eco yn ardal Minffordd am gyfnod o 13 o flynyddoedd. Mae bellach yn haeddu gorffwys o'r gwaith.

Sian Davies, 2 Stad Minffordd, fydd yn gyfrifol am y dosbarthu o'r rhifyn hwn ymlaen.

Pob lwc Sian.

EGLWYS SANT MIHANGEL

Canlyniad y Raffl: £20: Mrs Rawson, Bryn Moelyn; £15: Mrs E Williams, Bryn Gro; £10: Mrs Roberts, Glannau Merswy; Tegan Meddal: Mrs Roberts, Glanffynnon; Tegan Meddal: Mrs O Jones, Bwlch, Cwm y Glo; Hamper: Mrs Rawson, Bryn Moelyn; Hamper: Miss E W Roberts, Afon Rhos; Gwin: I Hughes, Ferodo; Bisgedi: G Morris, Cwm y Glo; Siocledi: J Morris, Hafan Elan; Nwyddau Ymolchi: M McGuinness, Llanrug.

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A
RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

Hyfrydwch o'r mwyaf i mi oedd gweld dernyn o farddoniaeth yn cario'r teitl 'Dinorwig' wedi ei anfon gan Beti Rees Edwards o Wlad yr Haf. Fe olrhainir 'Dinorwig' o'r dyddiau pan oedd bri ar y chwarel hyd at ein dyddiau ni — hen swm cynhyrchu llechi wedi distewi a'r cynnyrch bellach yn drydan at wasanaeth diwydiant, ond tawelwch lle bu swm y siediau a'r hen waliau lle cynhyrchid llechi ar gyfer toi. Craith erbyn hyn yw'r hen chwarel.

'Rwy'n siwr y caniateir i mi sôn am deulu Mr a Mrs Thomas Rees Edwards, y bu eu tair merch, Enid, Joan a Beti Rees Edwards yn mynychu Ysgol Sul Sardis (B) yn gyson. Yr adeg honno 'roedd gennyng genhedlaeth o blant a phobl ifanc gweithgar yn mynychu'r ddau gapel ac Eglwys St. Mair. Erbyn hyn mae nifer y plant a'r bobl ifanc wedi lleihau, a nifer helaeth o deuluoedd ieuanc wedi eu gorfodi i symud i ardaloedd eraill i chwilio am foddion cynhali-aeth. Yn sicr ddigon mae rhywbeth o'i le yn rhywle. Paham y mae'n rhaid i ni oddef y diboblogi hwn yn ein hardaloedd, a'r rhai a adawyd ar ôl yn mynd ymlaen mewn dyddiau — yr hufen yn cael ei anfon i ardaloedd eraill? Efallai y bydd rhai yn fy nghyhuddo o rygnu ar yr un tant doleus yn wastadol. Eto ni all neb osgoi'r gosodiad mai cenedl o dan orthrwm ydym ni, ond cenedl serch hynny a gynhyrchodd feirdd, llenorion a cherddorion, ac a allodd anfon ei chynnyrch gorau i lwyfanau Eisteddfodau taelithiol a'r Eisteddfod Genedlaethol ei hun.

Efaith diddorol, mae'n rhaid cyfaddef yw mai mewn ardaloedd bychain fel Dinorwig y codwyd adroddwyr a chanwyr, ac y gwelwyd ffurfio corau bach pentrefol oedd yn creu diwylliant, ac y gwelwyd offerynwyr yn ymuno â bandiau prës llwyddiannus. Hyfryd bellach yw gweld rhai dysgwyr wedi tyfu i fyny i roddi hyfforddiant i do ieuengach yn y bandiau prës, ac yn cynorthwyo i godi cenhedlaeth newydd o offerynwyr.

Fe draethwyd llawer am y fesen fechan yntfyfu i fod yn goeden dal-gryf a'i gwreiddiau yn ymledu i chwilio am gynhali-aeth o'r pridd, a'r gwreiddiau hynny sy'n rhoddi pob ccryfhad i'r goeden a'i chynorthwyo i wrthsefyll stormydd enbyd a dinistriol ar adegau. Mae'n syn gyda llaw gweld ambell i blanhigyn yn llwyddo i dyfu mewn lleoedd lle na cheir fawr ddyfnder daear. Mae'n rhyw yd-nwch anhygoel yn perthyn i rai ohonynt.

Un nodwedd gobeithiol iawn sy'n perthyn i ardal Dinorwig y dyddiau hyn yw bod nifer o Saeson a ddaeth i fyw i'r ardal wedi sylweddoli gwerth yr iaith Gymraeg, ac yn ymdrechu'n deg i ddysgu ein hiaith. Fe neilltuwyd noson iddynt yng Nghymdeithas Ddiwylliadol yr ardal, ac fe roddwyd noson ychwanegol ganddynt ar ddiwedd y tymor i gyflwyno geiriau Cymraeg ar alawon perthynol i wahanol wledydd. Fe fethais i a bod yn bresennol yn yr

olaf o'r nosweithiau hyn, ac yn ôl a glywais wedyn fy ngholled i oedd fy absenoldeb.

Y mwyaf arthrylithgar o'r cerddorion a dreuliodd ran helaeth o'i fywyd yn Ninorwig oedd Mr. John Brwynog Jones, Hafoty. Fe ddengys ei enw mai ardal Llanberis oedd â'r hawl cyntaf arno, oherwydd 'Cwm Brwynog' a roddodd iddo ei enw canol. 'Roedd yn un o'r cymeriadau hynny y gellid ei gyfrif yn 'gerddor crwn' ar sail ei ddawn fel cyfan-soddwr ar gyfer lleisiau ifanc, ei allu fel organydd cyn dyddiau yr offerynau electroneg a'i lwyddiant fel arweinydd cymanfaoedd canu. Fe allaf i'n bersonol dystio pa mor fedrus oedd yn rhodd 'organ recitals' ar hen organ Eglwys Llandinorwig. Fe ellid ei ystyried yn gyfochrog â'r Dr. Caradog Roberts, Dr Rogers, Mr Bradwen Jones, Mr Reginald Gors Custard a'r diweddar Mr Willie Thomas, Fachwen. Fe allai'n ogystal arwain cynulleidfia i dir uchel iawn gyda'i ddehongliad o donau canadwy, ac fe allai ddenu cantorion i ganu'n ystyriol.

LLONGYFARCHIADAU. Hyfryd iawn yw gweld pobl ifanc yn magu plant yn addurn i'r ardal. Oni ddy-waid uno broffwyd i'r Hen Destament yr hoffai glywed swm plant yn chwarae ar heolwydd, serch bod y plant ieuanc yn gwneud i'r teidiau a'r neiniau deimlo'n hen. Estynwn ein llongy-farchion calonog i Mair a Phaul ar enedigaeth plentyn arall i dai Maes Eilian. Chwaer bach yw'r un a anwyd i Irene a'r taid a'nain yw Mr a Mrs R. L. Williams. Ein gob-aith i'r dyfodol yw gweld mwy a mwy o blant yn siriol aelwydydd.

DIOLCH. Dymuna teulu y ddiwed-dar Rhiannon Jones (Foel gynt) ddiolch yn fawr i bawb a ddan-gosodd eu caredigrwydd, ac am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth.

Fe ddaw cais cyffelyb oddi wrth Mrs Jenie Jones, Buarth Newydd — hithau hefyd yn diolch o galon i'w theulu a'r holl frindiau am y cardiau, y rhoddion a'r dymuniaau da a dderbyniodd tra dan driniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau yn Ward Beuno.

Anfonwyd diolch yn ogystal gan Mr. D. R. Jones, Bron Myfyr i deulu a chymdogion am y rhod-dion a'r dymuniadau da a dderbyniodd tra bu yntau yn Ysbyty Gwynedd. Llauer o ddiolch i holl staff Ward Conwy.

GWYL BREGETHU. Bellach mae nifer o'r Cymanfaoedd canu am eleni wedi eu cynnal, a ninnau yng Nghapel Sardis (B) wedi cefnu ar Wyl Bregethu flynyddol y Sulgwyn. Y cennad eleni oedd y Parch Dennis Jenkins, Llanelli, un o gyn-weinidogion Sardis, a chan bod y tywydd yn ffafriol fe gafwyd cynul-liadau cymeradwy a chenadwriau grymus.

HWYL HAF '89. Dyddiad cynnal 'Hwyl Haf' eleni yw **DYDD SAD-WRN, MEHEFIN 24, am 2 o'r gloch**, a hynny fel y llynedd yn Allt

HWYL HAF '89
Pnawn Sadwrn, Mehefin 24
o 2 o'r gloch ymlaen
Allt Ddu, Dinorwig.
Gemau/Stondinau a digonedd o hwyl.
Cofiwch ddod — Croeso i bawb.

Ddu. Felly nid oes llawer o amser tan y diwrnod mawr ei hun. Yn naturiol bydd llwyddiant y fenter yn dibynnu ar y tywydd a'r gobaith yw y cawn ddiwrnod braf. Byddpob math o gemau, stondinau, ac ati, yn cael eu trefnu a bydd rhywbeth at ddant pawb o bob oed. Felly cofiwch ddod, cewch brynhawn wrth eich bodd.

CLWB CERDDED. Oes mae Clwb Cerdded wedi ei sefydlu yn y pentref a bydd y daith gerdded gyntaf yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn 3 Mehefin. Os oes gennych ddiddordeb mewn dod, ac mae croeso i unrhyw un, bydd pawb yn ymgynnull wrth y Ganolfan am 10. Bydd yn ofynnol i bawb ddod a bwyd/diod a dilladau addas gyda hwy. Y daith fydd cerdded o'r Ganolfan i fyny y llwybr cyhoeddus tuag at Gapel Sardis; yna i fyny Lon Garret a cherdded i lawr trwy'r chwarel hyd nes dod at y fan olygfa. Yna cawn weld sut siap fydd ar bawb cyn penderfynu os byddwn yn mynd trwy'r coed tuag at gyfeiriad Fachwen cyn ymlwybro'n ôl i'r Ganolfan. Felly beth am ddod. Bwriad y cyfan yw teithio'r ardal gyda'n gilydd; cael cymdeithasu, a chan bod rhai o'r dysgwyr yn dod gyda ni roi cyfle iddynt hwythau ymarfer y Gymraeg. Dylai'r cyfan fod yn dipyn o hwyl.

Mis diwethaf bu i ni gynnwys taith gerdded oedd wedi ei llunio gan Mr. Rennell Williams. Tro yma, ymgais Mrs. Alice Griffiths, Tan y Bwlch sydd gennyf. Mae Mrs Griffiths yn cychwyn ei thaith wrth Ty'n y Fawnog lle ceir rhes o dai cyngor Bro Elidir ynghyd â day dy arall o'r enw Ty'n y Fawnog. Bu y fan hon yn gyrchfan i blant ac ieuencid yr ardal dros y blynyddoedd, gan fod croesffordd yn dod a hwy o bob cyfeiriad yma. Cerdded ymlaen hyd y ffordd fawr heibio Eglwys St. Mair, adeilad hynod o daclus, sydd wedi dathlu ei phenblwydd yn 100 oed rai blynyddoedd yn ôl, heibio Tanybwllch, Bron Eilian a dod at Minffordd, troi lawr i'r dde hyd lwybr cyhoeddus, 'llwybr Tynyrardd', a dod allan ger Capel M.C. Dinorwig, 1825; cymeryd y ffordd i'r chwith heibio Dublin House (enwyd y ty hwn gan wr o Wyddel Mr McCarthy a fu yn gweithio yn y Ty Powdwr) ymlaen at afon sydd yn rhedeg o'r Elidir ar ei thaith i Lyn Padarn, dilyn yr afon ar hyd y llwybr, tros y gamfa ac i'r chwith, ac am Penrallt trwy'r

caeau. Bu llyn yn y lle cyn yma, ond yn 1954 cafwyd storm o wlaw eithriadol ac fe ddymchwelodd y gwrthglawdd gan ysgubo y cyfan i lawr yr afon islaw ac i Lyn Padarn. Yn Llyn Penrallt yr arferai sgweiar y Faenol a'i gwmni bysgota.

Troi i'r chwith a chyfeirio ein camrau trwy Goed Alltwn. Mae y coed yma yn rhan o Barc Gwledig Padarn, man lle mae'r Cyngor Sir wedi ei nodi ar gyfer twristiaid. Cerdded ymlaen nes dod at risiau haearn sydd yn arwain i fan lle y dywed hanes fod claddfa i filwyr a fu farw mewn brwydr ar rhyw gyfnod neu'i gilydd. Gwelir rhesi o ffosydd gyda chodiad tir bob yn ail, ac mae'n hawdd credu fod hyn yn wir. Dringo i fyny i gyfeiriad yr hen Dy Powdwr (lle y cedwid powdwr i chwythy'r graig pan oedd y chwarel yn gweithio). Bellach mae'r adeilad yn hostel i ddringwyr o Loegr gyda'r enw 'Karabina' — o'r fath ofid! Ar ben y ffordd rhaid sefyll a mawrygu y fath olygfa, o ben Bwlch Llanberis hyd draethau melyn Llanddwyn ym Môn, gyda Dyffryn Peris oddi tanom, a'r Wyddfa fawr yn coronï'r cyfan. Awn ymlaen heibio fferm Blue Peris nes dod i'r ffordd sydd yn arwain ymlaen i'r Allt Ddu. Erbyn hyn mae y fan hon yn gyrchfan i nifer o ddringwyr sydd yn ddyddiol yn dringo hyd y graig, lle bu cymaint o'r chwarelwyr yn ennill eu bara beunyddiol flynyddoedd ynghynt.

CYFARFOD PREGETHU. Bydd Eglwys St. Mair yn cynnal Cyfarfod Pregethu ar **brynhawn Sul, 18 Mehefin am 3.45 o'r gloch**. Y pregethwr gwadd fydd y Parch. Gwilym Berw Hughes, Ficer Penmaenmawr, un a fu ar un adeg yn offeiriad yn y plwyf. Mae croeso i bawb ymuno ag aelodau St. Mair yn y gwasanaeth arbennig hwn.

LLONGYFARCHIADAU i Alison Dearn, Fron Deg am lwyddo i sicrhau lle ar gwrs dwy flynedd 'Cyfle' yng Nghaernarfon. Fel y gwyr nifer ohonoch mae Alison wedi dysgu Cymraeg yn rhyfeddol o dda a hynny mewn cyfnod byr iawn. Dymunwn bob llwyddiant iddi yn ei gyrfa newydd.

DYRCHAFIAD MEWN SWYDD. Yn ystod mis Mehefin bydd Mr Glyn Tomos, Pen y Bwlch, yn ymgymeryd a'i ddyletswyddau newydd fel Uwch Weithiwr Cymdeithasol ym Mhwlheli. Dymunwn bob dymuniad da iddo yn ei swydd newydd.

Gwasanaeth Llogi Cerbydau

SEGONTIUM
CAR . VANHIRE

Cerbydau Pickup, Luton Cargo
a Bysus Mini

Hefyd Gwasanaeth Glanhau Ceir

MODURDY LLEIOD,
CAERNARFON Ffôn: 2013

CHWILOTA MWY AM 'GWYNETH'

Nid yw saga "Gwyneth of the Welsh Hills" drosodd o bell ffordd! Daeth llythyr yn rhoi ychydig mwy o wybodaeth am y llyfr a'r ffilm o'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Ceris Gruffudd o Adran y Llyfrau Printiedig sy'n sgwennu:

"Seiliwyd y ffilm ar lyfr o'r un teitl gan Edith Nepean, a gyhoeddwyd yn 1917 gan Gwmni Stanley Paul, Llundain. Ymddangosodd y ffilm yn 1921. F. Martin Thornton oedd y cyfarwyddwr, a'r actorion oedd Madge Stewart, Lewis Gilbert, Hubert Willis a J.R. Pozer. Nid oes copi ohoni ar gael yn yr Archif Ffilm Genedlaethol yn Llundain, ond er fod tua 25 o luniau llonydd o'r ffilm ar gael, nid oes yr un o'r rheini wedi eu tynnu y tu mewn nac y tu allan i gapel."

Mae dau gwestiwn diddorol yn mynnu cael eu gofyn o ganlyniad i'r llythyr hwn:

1. A yw'r llun sydd ym meddiant Owen Owen a'i chwaer, Maggie Lewis, yn archif coll o'r ffilm?
2. Pam fod enw'r actores Lillian Gish wedi ei sgwennu ar gefn y llun, a'r Archif Ffilm Genedlaethol yn credu nad oedd yn cymryd rhan yn y ffilm?

HEL ACHAU

Mae Jane Roberts, Bryntirion, Mynytho, Pwllheli yn ceisio olrhain achau ei thad - JOHN ROBERTS, BRYNGWREDOG, WAEN WEN (byw yno tua 1924/26). Cred mai enwau ei rieni oedd William a Jane Roberts (Claddwyd Jane ym mynwent Pentir 31.3.1926). Roedd ganddynt fab arall, William a fu farw'n ifanc o'r diptheria. Oes unrhyw un all helpu?



BAND LLANBERIS?? TUA 1935

Ar y chwith, gyda'r ffon arwain, Awen Evans (postmon) Llanberis. Hefyd yn y llun mae Mr Alves, Bryn Bras, Llanrug; Lloyd George a'r Aelod Seneddol, Goronwy Owen, Llwyn y Brain, Llanrug.

Anfonwyd y llun diddorol hwn o Capetown, De Affrica gan Mrs Gwyneth Wilkes, gynt Evans (o 59 Dôl Elidir, Llanberis) drwy law ei nith, Miss/Mrs D Evans, Y Fedwen, Llanrug.

Awen Evans, Llanberis oedd

arweinydd y band (sef Band Llanberis), a thad Mrs Wilkes. Nid yw'n siwr beth oedd yr achlysur, ond cred mai'r flwyddyn oedd tua 1935. Oes unrhyw un o'r darllenwyr yn gwybod mwy o'r hanes?

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990: Dymuna'r pwyllgor lleol ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd tuag at y Stodin Tombola yn yr Wyl Gyhoeddi ym Mharc Glynllifon ar Fai 1af. Cafwyd amser ardderchog gan bawb a fu yno ac roedd y tywydd braf yn gwneud i bawb edrych ymlaen at weld yr Eisteddfod mewn lleoliad mor ddelfrydol.

LLWYDDIANT AR Y PIANO: Llongyfarchiadau i Gwenan Elis a Llinos Ann Roberts ar eu llwyddiant yn pasio arholiad piano Gradd 2. Mae'r ddwy yn ddisgyblion i Mrs Glenys Griffiths.

LLONGYFARCHIADAU i Miss Lowri Prys Roberts ar ei hapwyntiad yn ddirprwy brifathrawes yr ysgol yn dilyn ymddeoliad Mrs G A Williams. Mae Miss Roberts yn athrawes yn yr ysgol ers nifer o flynyddoedd a bydd yn dechrau yn swyddogol yn ei swydd newydd

ym mis Medi.

AGOR TAFARN NEWYDD: Nos Fercher, Mai 17, agorwyd tafarn newydd y pentref am y tro cyntf. Mae Kevin a Carolynne Johnson wedi bod yn brysur iawn dros y 10 mis diwethaf yn adeiladu Y Bedol, sy'n adeilad hardd ar ochr y briffordd.

Dymunir pob lwc i'r ddau yn eu menter newydd.

CHWARAEON YR URDD: Nos Fercher, Mai 17, ar gaeau Ysgol Syr Hugh Owen, cynhaliwyd chwaraeon yr Urdd. Bu nifer o aelodau'r gangen yn cymryd rhan yn y gwahanol gampau gyda phawb yn mwynhau eu hunain yn arw ac yn eiddgar iawn i wneud eu gorau dros y gangen.

Daeth Elen Jones yn drydydd yn y ras 50m dan 10 oed ac yn 2il yn y naid uchel, a daeth Julie Owen yn 3ydd yn y ras 80m dan 12 oed.

Daeth tîm cyfnewid bechgyn dan

10 a'r tim dan 12 yn 5ed yn eu ras hwy. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd am wneud eu gorau. Diolch i'r mamau hefyd am fynd a hwy yn eu ceir ac yn arbennig i Mary Wyn Jones, Y Ddol am roi ei hamser ac am ddangos diddordeb yn y plant.

PLAID CYMRU

Cynhelir Helfa Drysor, nos Wener, Mehefin 16. Pawb i gyfarfod o flaen y Neuadd rhwng 6.30 a 7.30. Tâl 50c y person. Enwau i Siôn Williams (Ffôn 670293) i sicrhau bwyd ar y diwedd.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Bethan Parry, Ael y Bryn.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs H J Roberts, Tai Newyddion ar enedigaeu eu hail wyres, merch i Janice a Raymond yn Coventry.

ARHOLIAD LLAFAR: Yng Nghapel Siloam, Bontnewydd, pnawn Sul, Mai 7fed yng Nghymanfa Ganu Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Dsobarth Caernarfon a'r Cylch gwobrwywyd a ganlyn o Ysgol Sul Tan y Coed a eisteddodd yr Arholiad Llafar.

Dan 3 oed: Bethan Wyn Pritchard, Natalie Elisha Blanchard a Dylan Wyn Pritchard.

Dan 4 oed: Robin Edwin Thomas.

Dan 5 oed: Iwan Llwyd Pritchard. Dan 6 oed: Rheon Parry. Dan 7 oed: Margaret Sian Pritchard. Dan 8 oed: Anna Salisbury Watterson. Dan 10 oed: Llion Wyn Pritchard a Sara Salisbury Roberts.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd ar eu llwyddiant.

CROESO ADREF i Mrs Mair Jones, Bonc sydd wedi bod yn yr ysbyty.

GWELLHAD BUAN i Miss Enid Roberts, Minafon, sydd newydd ddod adref o'r ysbyty yn Llandudno ac i Miss Nance Williams, Cartref sydd yn Ysbyty Gwynedd.



I weled ein crôg fasgedi - a'r grug
Sydd mor grand, a pherthi
O goed fyrdd, i wyrdd erddi
Dowch oll i'r Antur, da chwi

CANOLFAN ARDD ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Am flodau gardd i harddu - a llysiau
Sy'n llesol i'r teulu
Ewch heibio i archebu
Yno lwyth planhigion lu

- * GRUG
- * ALPAU
- * PERTHI
- * LLYSIAU

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser gan
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

YR URDD:

Llongyfarchiadau i dîm pêl droed 7-bob-ochr yr Urdd a wnaeth yn dda iawn mewn gornest bêl-droed yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Aethant drwodd i'r rownd derfynol, ond colli yn y diwedd ar ôl gêm ardderchog a chynhyrfus iawn.

Diolch hefyd i'r aelodau a gymerodd ran ym Mabolgampau Cylch yr Urdd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Kevin Davies a Gerallt Jones sydd wedi mynd drwodd i Fabolgampau'r Sir ym Mangor. Pob lwc iddynt.

Yn ddiweddar aeth deg o'r aelodau i'r Gwersyll yng Nglanllyn, a chael amser da iawn. Pob hwyl i bawb sy'n mynd i Langrannog yn yr haf.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod y Sefydliad nos Iau, Mai 6. Llongyfarchwyd Mrs Ellen Jones ar ddod yn nain unwaith eto gan y Llywydd, Mrs Pat Parry, a'r un pryd llongyfarchwyd Mrs Pat Parry gan yr aelodau ar briodas ei mab.

Treuliwyd y noson yn trafod gyda'r VCO, Mrs Maud Williams, y pynciau cenedlaethol fydd yn cael eu trin a'u trafod yn y Cyfarfod Blynnyddol yn Llundain. Diolchwyd iddi am gynnal noson ddifyr gan Mrs Katie Wynn Jones.

Mrs Peggy Jones oedd enillydd y raffl, roddedig gan Mrs Myra Ham. Trefnwyd taith ddigrl gan gyfer y cyntaf o fis Mehefin.

PENCAMPWYR: Ddiwedd Ebrill daeth Waunfawr i'r brig mewn cystadleuaeth Chwaraeon Pentrefi a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon.

Enillodd y Waun bedair o'r naw cystadleuaeth – nofio, bowllo, golff a phêl-droed 5 bob ochr i'r ysgolion cynradd.

Bydd y darian a'r cwpanau a enillwyd ar y diwrnod yn cael eu harddangos yng Nghanolfan y pentref yn y dyfodol agos.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn y Ganolfan, nos Iau, Ebrill 27. Cafwyd noson ddifyr iawn gyda Mrs Mary Vaughan Jones yn dangos sleidiau o China. Roedd yr aelodau yn falch o weld Mrs Glenys Williams yn bresennol ar ôl bod yn yr ysbyty. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Iris

Owen a'r enillydd oedd Miss Catherine Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 25 pan ddisgwylir cwmni cangen Rhosgadfan.

CLWB 330, MIS EBRILL: £40: R O Jones, Tan y Waen; £25: Mrs E Williams, Dwyfor; £10: W M Catt, Garej Smithy.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL:

Mae trefniadau wedi eu cwblhau ar gyfer y trip nos Fawrth, Mehefin 13 i ardal Chwillog, pan y bydd Mr Dyfed Evans yn ein tywys i fannau hanesyddol. Bydd y bws yn gadael y llythyrdy yn brydlon am 6.15 – erfynnir am brydlondeb (er mwyn cael mwy o amser yn Eifionydd) – a bydd hefyd yn codi'r aelodau hynny sy'n byw yng nghanol y pentref ac yng Nghroesywaun. Wedi'r daith ceir pryd o fwyd basged yng ngwesty Bryn Eisteddfod, Clynnog. Y gost fydd £3.50 y pen (mae ychwanegiad bychan yn y pris erbyn hyn). Os nad ydych wedi hysbysu Stanley Williams, Cefn Coed neu Rol Williams, 5 Pant y Waun o'ch bwriad i ddod, dylech wneud hynny ar unwaith, gan mai'r 'cyntaf i'r felin' fydd hi os am deithio ar y bws.

YMDDEOLIAD Mr LESLIE JONES: Wedi blynnyddoedd o wasanaeth, mi fydd Mr Leslie Jones yn ymddeol o'i swydd fel prifathro'r ysgol gynradd ddiwedd tymor yr haf. Ar ran llywodraethwyr yr ysgol, rydym ni'n trefnu tysteb iddo, yn werthfawrogiad o'i wasanaeth teilwng dros gyfnod maith. Rydym yn sicr y bydd llawer o gyn-ddisgyblion a'u rhieni, ac chyfeillion a chydabod Mr Leslie Jones yn dymuno cyfrannu i'r gronfa, a gellir gwneud hynny trwy anfon eich rhoddion at:

John Cadwaladr, 3 Glyn Afon
Joy Glyn, Plas Bodhyfryd
Rhodri Prys Jones, Penygraig

Y dyddiad cau fydd Mehefin 30.

LLONGYFARCHIADAU i Geraint a Barbara Griffith, Bro Waun ar ddod yn dain a nain am y tro cyntaf, ganwyd bachgen bach, Russell, i'w merch, Valerie a'i gwr, Steve.

– i Delyth Jones, Cynant Lodge am lwyddo yn ei harholiad theori cerddoriaeth, Gradd 1;

– i blant yr ysgolion Sul am lwyddo yn eu harholiad maes llafar;

– i'r aelodau o dîm chwaraeon y pentref am fod yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth chwaraeon i'r pentrefi;

– i Dr Michael Parry, Ffridd Felan ar ei briodas â Dr Liz Burns, ym Manceinion. Bydd y ddau yn ymgartrefu yng Nghaer. Dymuniadau gorau i Michael yn ei swydd newydd gyda chwmni profi cyffuriau yng Nghaer;

– i Sandra Jones, Graianfryn ar gyrraedd ei deunaw oed;

– ac i Lynn Jones, Bryn Menai ar gyrraedd ei deunaw oed.

– i Meirion Williams, 1 Dol Erddi ar ei benblwydd yn 18 oed.



Bu Rhys Siôn yn brysur iawn yn ddiweddar yn ffilmio ar gyfer y rhaglen 'Sblat' sy'n ymddangos ar hyn o bryd ar S4C am 6.15 ar nos Wener. Dyma'r ail dro i Rhys gael ei wahodd i ymddangos ar y rhaglen hon. Pob dymuniad da iddo i'r dyfodol.

ADREF O'R YSBYTY: Da deall fod Mr H Westphall, Tref Eilian; Mrs Catherine Jones, Bryn Derwen; Sion Rowlands, Ty'n Coed a Mr Glyn Williams, Plas Glynafon wedi gwella ac wedi cael dod adref o'r ysbyty.

Mae Mr T H Williams, Llwydiarth, yn gwella ar ôl cael damwain a thorri ei goes; ac mae Martin Roberts wedi gwella ar ôl dmwain a thorri ei arddwrn; rydym hefyd yn falch o ddeall bod Irene Roberts, Pant Teg, wedi dod dros y sioc a gafodd mewn damwain car yn ddiweddar.

COFION: Anfonwn ein dymuniadau da am wellhad buan at bob un sydd yn wael yn eu cartrefi.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Annie Taylor, Dol Erddi a Mr R Roberts, 9 Bryn Golau sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys â

Marion Iwan, Panyberth, sydd wedi colli ei ei thad yn ddiweddar; hefyd â Mr Elfed Roberts, Dwyros ar golli ei chwaer;

hefyd âg Edgar Owen, Glyn Awel a Keith Owen, Stad Ty Hen ar golli eu tad, ac â Mr Richard Owen, Bro Waun, Miss J Ann Owen a Mrs Catherine Williams, Stad Ty Hen ar golli eu brawd.

Trist oedd clywed am farwolaeth ein cyn-weinidog, y Parchedig J D Roberts, ac anfonwn ein cydymdeimlad at ei briod, Mrs Kitty Roberts, Buddug a Huw a'r teulu i gyd.

Hefyd a Mr Evan Hughes, 3 Bryn Golau, yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer.

DIOLCH: Dymuna Rhian Rowlands, Bro Waun, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd ar ôl colli ei mam, Mrs Enid Jones. Dymuna ddiolch am y rhoddion a dderbyniwyd tuag at gapel Croesywaun.

DYMUNIADAU GORAU i Mrs Mair Williams, Fferm Bodhyfryd ar ei hymddeoliad o'i gwaith fel nyrs yr ardal.

YR YSGOL FEITHRIN: Mae pwyllgor yr Ysgol Feithrin wedi tefnu taith gerdded noddedig i gychwyn o flaen y llythyrdy am 6.30 o'r gloch nos Wener, Mehefin 16. Mae croeso mawr i bawb ymuno â hwy.

LLONGYFARCHIADAU i Mr John G Jones, Hafod y Rhug a'i gi, Mari fu'n cynrychioli Cymru mewn Pencampwriaeth Ryngwladol Cwn Defaid ym Miwmares ar Fai 27, yn erbyn timau o Loegr a'r Alban. Gwylwch amdanynt mewn rhaglen ar y teledu yn y dyfodol agos.



GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi a phob math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn:
Waunfawr 552

**SIMNEIAU GWael? CRACIAU?
MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?**

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

LLONGYFARCHIADAU i John Huws, Argoed ar gwblhau Marathon Llundain mewn 3 awr, 44 munud.

ADREF O'R YSBYTY: Mae'n dda deall fod Andrew Parry, Bro Waun adref o'r ysbty ym Manceinion.

MARATHON LLUNDAIN: Diolch o galon i bawb â'm noddodd i redeg ar ran Antur Waunfawr ym Marathon Llundain ddiwedd Ebrill. Roedd yn brofiad anhygoel bod yn un o'r degau o filoedd a gychwynnodd o Blackheath ac roedd yn braf gwybod fod pobl y Waun hefo fi bob cam o'r chwe milltir ar hugain at y llinell derfyn ar Bont Westminster. Anghofia i byth mo'r wefr ges i wrth orffen a gwybod bod £400 yn ddiogel yng nghronfa Cynllun Oriau Hamdden yr Antur. Hon oedd fy marathôn gyntaf ond yn bendant nid hi fydd yr olaf!

CLWB GWYRFAL: Mai 4, cynhaliwyd Noson Goffi yn y Ganolfan, gyda stondin gacennau a bwydydd. Diolchodd y llywydd Canon B Thomas am gefnogaeth y cylch - i'r rhai a fu'n cynorthwyo yn y gegin ac i'r aelodau a phawb oedd wedi cyfrannu at noson lwyddianus. Rhoddwyd anrhegion gan Mrs Griffith, Llythyrdy a Mr Humphrey Roberts ac fe'u henillwyd gan Mrs Heulwen Hughes, Mrs Payne a Mr Edgar Owen.

Mai 11: Er nad oedd y tywydd yn ffafriol iawn, mwynhawyd y daith drwy Lyn ac Eifionydd. Cafwyd cinio rhagorol ym Mhlas Gwyn, Pentreflin cyn mynd ymlaen am Gricieth ac aros am ychydig yn Abersoch.

Hwn oedd ein cyfarfod dwythfa am y tymor i fod ond daeth gwa-hoddiad i aelodau Clwb Gwyrfai i gael te yn y Fronlwyd gan Miss Owilda Williams ar Fehefin 20. Nid dyma'r tro cyntaf i Miss Williams fod yn hael tuag at y Clwb.

LLONGYFARCHIADAU i'r canlynol ar eu llwyddiant mewn arholiadau piano.

Kirsty Jones, Cynefin, Gradd 1 (teilyngdod);

Huw Gwilym, Llidiart Wen ac Elain Medi, Glyn Awel, Gradd 2;

Bethan Wyn, y Frenni a Dylan Jones, Rhandir Mwyn, Gradd 4;

Ac hefyd i Zoe Gordon, Garnedd Wen ar ennill gradd 4 gydag Anrhydedd mewn arholiad Obo.

YR YSGOL: Llongyfarchiadau i Ffion M Edwards ar ennill y wobwr gyntaf trwy Gymru am gynllunio cerdyn Nadolig Cymraeg i Oxfam. Bydd y cerdyn yma yn cael ei werthu trwy Gymru gan Oxfam cyn y Nadolig.



Ffion Edwards

EISTEDDFOD YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990: Cafwyd diwrnod llwyddianus iawn yn yr Wyl Gyhoeddi yng Nglynllifon ar Fai 1af. Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd mor hael tuag at ein stondin Tombola yno. Y dyddiad nesaf i'w gofio yw nos Sadwrn, Mehefin 1 - pryd y bydd Swper Awyr Agored yn y Ganolfan am 6.00 o'r gloch. Dowch a phlât, powlen, cylllell, ffôr a llwy hefo chi.

Ar fore Sadwrn, Gorffennaf 8 bydd Taith Gerdded Noddedig i'r teulu yn cychwyn o faes parcio Bryn Eirian am 10.00 o'r gloch y bore. Bydd ffurflenni noddï ar gael yn y Swper Awyr Agored neu gan Mrs Nan Roberts, Pant Afon.

DYMUNIADAU GORAU i Nan Wyn, Tan y Fron sydd yn cystadlu yn y gystadleuaeth siarad cyhoeddus dan 25 oed, ac i'r grwp pop Bron a Methu sydd yn cystadlu yn y gystadleuaeth cân bop dan 25 oed yn Eisteddfod yr Urdd, Cwm Gwendraeth. Pob hwyl i'r rhai o'r pentref sydd yn aelodau o gôr Ysgol Syr Hugh Owen fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod.

CLWB Y BLAID:

Ebrill: 1. Gill Brown, Gorwel; 2. Haydn Jones, Rhandir Mwyn; 3. John Huws, Argoed.

Mai: 1. Glenys Jones, Rhandir Mwyn; 2. Keith Owen, 5 Stad Ty Hen; 3. Eurig Wyn, Y Frenni.

DYMUNA Mr Elfed Wyn Roberts,

Dwyros ddiolch o galon am y cardiau, y galwadau ffôn a'r blodau a dderbyniodd ar ei brofedigaeth o golli ei chwaer yn y Groeslon.

CYFRIFON AM Y FLWYDDYN I 31ain MAWRTH 1989

1987/8	DERBYNIADAU	1988/89
£		£
4372.26	Gwerthiant	4372.12
4193.25	Hysbysebion	5122.00
433.00	Rhoddion	461.14
803.53	Grantiau: Cymd. Gelfyddydau	861.95
	Cynghorau Cymuned:	
10.00	Betws Garmon	5.00
25.00	Llanberis	25.00
50.00	Llanddeiniolen	100.00
220.00	Llanrug	250.00
30.00	Waunfawr	50.00
		430.00
172.74	Llôg	136.78
<u>10309.78</u>		<u>11383.99</u>
9982.98	TALIADAU	11019.46
103.19	Argraffu	207.55
20.70	Ffotograffiaeth	0.00
179.02	Papur, amlenni, a.y.b.	191.68
13.44	Stampiau	19.50
	Cystadleuaeth Peldroed	
<u>10299.33</u>		<u>11438.19</u>
10.45	Incwm yn fwy na gwariant	
—	Gwariant yn fwy na incwm	54.20
4688.67	Cronfa'r Eco: 1af Ebrill	4699.12
10.45	Elw'r flwyddyn	—
—	Colled yn fwy na gwariant	54.20
<u>4699.12</u>	Yn y Banc ac mewn llaw 31 Mawrth	<u>4644.92</u>

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion i gronfa'r Eco.

£5: Emlyn a Delyth Jones, Gorffwysfa, Llanrug. Mrs. Pat Larsen, Llygad yr Haul, Penisarwaun. Teulu'r 'Foel', Dinorwig. Mr Wyn a Sion Wyn Hughes, Ty'n y Weirglodd, Deiniolen.

£4: Miss J. Williams, Llangefni.

£3: Mrs N. Williams, 29 Rhydfadog, Deiniolen.

£2: Mr a Mrs Emyr Pritchard, Ffordd Deiniol, Deiniolen. Mrs N. Jones, Hirfron, Llanberis.

£1: Bill Harrison, Cynlas, Bro Gethin, Betws-y-Coed.

Y MEWNFUDWYR

Chwi wyddoch oll yr hanes Fel rhoddwyd ni'n ein lle Pan godwyd clawdd gan Offa, O'r Gogledd lawr i'r De.

A setlo yma wnaethom, Cyn bod T.V. na Ffôn, A galw'r wlad yn Gymru A'i mam yn Ynys Môn.

Ond do, fe dreuliodd amser A canu wnaeth y Bardd, A'r Sais yn edrych trosodd A gweld y wlad mor hardd.

A meddai o rhyw ddiwrnod Rhaid rhannu'r harddwch hwn, Caf dy bach yn Dinorwig A nain mewn fflat yn Cwm.

Anfonwch nodyn bychan I ddweud fod tai 'For Sale', A'n bod ni'n swynol ganu "There's welcome in the Vale".

Yr Hafod aeth yn Haven, Blue Crest yw Bron-y-Glais, Ond digon hawdd didoli, Y Postman sydd yn Sais.

Mae'r cwn a'r cathod bellach Yn ateb i'r iaith fain, Yn lle 'Sâ-draw' a 'gorwedd', "Lay down, dear Mot, that's fine".

Fe ddaeth y Gog eleni Er gwaethaf Estronaeg, A tystio wna ei chlywed Hi'n canu yn Gymraeg.

Ond peidiwch digaloni Na chodi llais yn groch, Awn oll i Batagonia, I wlad yr Indiaid Coch.

Huw Thomas, Llanrug

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

Beth am ddysgu
dreifio gydag
**YSGOL YRRU
BETHEL**

Cysylltwch â
Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel
Portdinorwig
671009

**YSTORFA
LLANRUG**
(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn:
Caernarfon 2790
Ar agor:
Llun - Gwener: 7.30 - 6
Sadwrn: 8 - 5
Sul: 9 - 12
Eich siop leol hefo'r
oriau hwylus

YMWELD Â'R PILI PALAS

Bu plant Safon 3 Ysgol Gynradd Llanrug ar ymweliad â'r Pili Palas yn ddiweddar ac ysgrifenydd nifer o gerddi hyfryd ynglyn â'r ymweliad yno. Dyma rai o'r cerddi i chi eu darllen:

PARADWYS Y GLOYNNOD

Paradwys yw gweld y lliwiau
Yn troelli mor hamddenol
Fel barcud yn yr awyr,
Fel blodyn yn yr haf.

Gavin, Dilwyn, Ioan, Dylan
Yandell.

GLOYN BYW

Glöyn hardd yn hedfan, hedfan
Yn yr awyr las,
Mae yn hedfan fel brenhines
Yn ei chôt o felfed glas.

Wyau melyn ar y deiliach
Yn yr haul braf
Roddwyd yno gan yr hyfryd
lâr fach yr haf.

Wedyn daeth lindys fechan fach
Oedd yn bwyta ar y deiliach
Fel rhyw beiriant-bwyta rhyfedd
Yn yr haul braf.

Mewn rhyw fis fe drodd
Yn chwiler caled hyll
Oedd yn rhoi rhyw symudiad
bychan
Bob yn hyn a hyn.

Glöyn hardd yn hedfan, hedfan
Yn yr awyr las,
Mae yn hedfan fel brenhines
Yn ei chôt o felfed glas.

Sioned Jones, Beverley Ann,
Faye Rochelle, Luned Jones.

YN YR HAUL MAWR CYNNES

Un diwrnod fe welais löyn byw
Ynghanol yr haf,
Yn hedfan yn hardd,
Yn dawnsio ac yn tynnu at y
coed.

Y diwrnod wedyn roedd un eto
Yn dawnsio'n hapus
Ac roedd ei gwr yno hefyd.

Roedd o yn aros yn llonydd
I gael y gwynt,
Ac i ffwrdd a fo i'r byd mawr
Yn yr haul mawr cynnes.

Nicola Proudley Williams,
Lorretta Nicola Jones.

Y CWCH GWYN

Glöyn Gwyn
A'i adenydd hardd,
Yn cael eu chwythu fel hwyliau
cwch
A'i deimlyddion fel llinyn hen
rwyd
Yn yr awel.

Tafod du fel tafod neidr
Yn gyflym fel y gwynt,
Traed bach du yn teimlo'r dail
Chwilio am le i ddodwy'r wyau.

Ei adenydd hardd,
Dim ond powdwr y'w lliw i gyd
Dim ond ychydig o wythnosau
Y mae yn byw.

ECO'R IFANC

LLIWIWCH Y LLUN



Ond bywyd sâl oedd ei bywyd
hi,
Bu farw cyn bo hir,
Disgynnodd hi o'r awel,
I'r llawr lle pydrodd hi.

Gareth Jones a Mark Parry.

UN DYDD

Un dydd yn yr haf
Mi welais Löyn Byw
Yn hedfan yn braf
Yn yr awyr las.

A'i lliwiau pert
Coch, glas a melyn,
Ond nawr mae'r haf drosodd
Eto mi ddaw'r Gloyn Byw.

Angela Wyn Humphreys, Cheryl
Ann Jones a Tracey Ann
Jacques.

ADAR YR HAF

Mae'r haf yma eto
Yn deffro pob glöyn byw
Mae'n nofio yn yr awyr,
Yn yr awel iach.

Mae'r glöyn byw o bob lliw,
Oren gwyrdd a glas.
Mae'n nhw'n hedfan fel adar
bach
Yn yr awel iach.

Dylan Williams, Carwyn Machno
Lloyd, Gareth Wyn Cook, Alan
Parry a Dylan Hughes.

Y GLOYN

Glöyn byw yn hedfan
Yn hapus fel aderyn hardd
Maen'n debyg i foneddiges
Yng ngerddi'r castell.

Llion Wyn Pritchard.

BYWYD Y PILI PASA

Pili Pala'n hedfan
Dros y blodau yn ein gardd.
Mae'n deodwy wyau melyn
Ar y blodau hardd.


Mae'r wyau yn deor
Fesul un ac un
A Siani Flewog bychan
Ddaw allan o bob un.

Erbyn hyn mae'r lindys
Yn ddigon mawr a thew
I droi yn chwiler caled
Wedyn fydd dim blew.

Un hardd ar y naw
Ddaw allan o'r chwiler clyd
Er mai ond powdwr
Yw'r lliwiau i gyd.


Sian, Rhian, Catrin a Marie.

COED! AIL OSODWCH Y LLYTHRENNAU




EWCH O DDOT I DDOT

CWBLHEWCH Y DDAU HANNER COLL



FEDRWCH CHI AIL-GREU Y LLUNIAU HYN?




CORNEL JÔCS

Doctor, Doctor! Help! Dwi'n teimlo 'run fath a cheffyl rasio!
Mi 'fetia' na milfeddyg fuasai'r gorau i chi!!

Glwysoch chi am y morwr a daflodd ei holl ddillad budron dros

ymyl y cwch i'r Môr?
Roedd o'n gobeithio y byddent yn cael eu golchi i'r 'lân'!!

Pam fod eliffantod yn gwisgo sbectol dywyll?
Am fod cymaint o bobl yn dweud jocs amdanynt — dydyn nhw ddim am i neb eu 'nabod'!!



Beth yw'r gwahaniaeth rhwng crocodeil a banana/
Ceisiwch dynnu croen oddi ar grocodeil!!!

Pam fod croen eliffant yn llawn rhychau a phlygiadau?
Ydych chi erioed wedi ceisio smwddio eliffant!!

Idwal! Idwal! Mae 'na leidr yn y gegin — a dwi'n meddwl 'i fod o'n bwyta'r cawl wnes i!

Paid a phoeni — fe ffonia i am y doctor iddo'n y bore!!

Doctor, Doctor! Help! Dwi newydd lyncu rolyn o ffilm! Be wna i?
Arhoswch tan ddydd 'Llun' i weld be ddatblygith!!

Dydy'r fatsien yma ddim yn tanio. Pam hynny?
Dwn i ddim. Roedd hi'n tanio'n iawn eiliad yn ôl!

NEWYDDION O YSGOL BRYNREFAIL

Ymweliadau â'r dosbarthiadau Cymraeg: Cafwyd ymweliad bud-diol a diddorol gan Eleri Llywelyn Morris, awdur Straeon Bob Lliw. Y mae rhai o ddisgyblion y bed-waredd flwyddyn yn astudio'r llyfr ar gyfer eu arholiad TGAU/Llenyddiaeth Cymraeg. Esboniodd Ms Morris gefndir y storïau, a chafwyd sesiwn wedyn yn ei holi am ei gwaith fel sgwen-wraig.

Cafwyd ymweliad hynod ddid-dorol gan Norman Williams, o Ffilmiau Eryri yn sôn am sgriptio ar gyfer y teledu. Bu'n siarad am dros awr - roedd pawb yn mwyn-hau pob eiliad o'r sgwrs. Dangosodd rannau o'r gyfres Jabas a Minafon ac eglurodd sut yr aethpwyd ati i ffilmio rahi golygfeydd.

By hyn yn brofiad gwerth chweil gan fod y disgyblion yn sgriptio eu hunain erbyn hyn, ac yn gobeithio ffilmio'r sgriptiau hyn yn y dyfodol agos. Bydd yn brofiad cael gweithio tu ôl i gamera am y tro cyntaf.

Clywelliadau: Bu rhai disgyblion ar glywelliadau ar gyfer cyfres deledu a fydd yn cael ei darlledu y flwyddyn nesaf. Bwriad y cwmni yw addasu 'Tydi Bywyd yn Boen' ar gyfer y teledu.

Ymweliad Dramatig: Bu Cwmni'r Frân Wen, y dwmni Theatr Mewn Addysg, yn ymweld â'r ysgol - gyda'u cyflwyniad ar gyfer y bumed flwyddyn (TGAU Cymraeg). Dilynwyd gyrfai Cai, y canwr pop. Bu'n berfformiad deinamig a cherddorol iawn. Roedd pawb wedi cael blas ar y perfformiad.

LANSIO'R NOFELAU

Deg o'r gloch oedd hi pan gerdais i mewn i'r neuadd. Roedd wedi ei gosod fel bod y llyfrau ar y dde, mewn rhes hir, ac yna roedd y bywgraffiadau ar yr ochr chwith. Roedd y stondin llyfrau yn hwylus i bawb. Roedd y cadeiriau wedi eu gosod mewn hanner cylch.

Yn gyntaf daeth Mrs Mary Hughes i siarad am sut y dechreuodd hi sgwennu nofelau. Roedd hyn yn weddol ddiddorol. Yna daeth Mr Thomas, y prifathro, ataf a dweud fy mod i gael tynnu fy llun gyda Mary Hughes. Roeddwn i fod i smalio darllen 'Tecs', un o'i llyfrau.

Yna, daeth Rhian Cadwaladr, yr actores, i'r neuadd. Dewisodd rai o'r nofelau a'u darllen. Roeddwn yn hoffi hyn, oherwydd mi oeddwn yn medru cael gwahanol syniadau

ar gyfer fy nofel nesaf (os y penderfynwn sgwennu un arall).


Daeth Mr Norman Williams i siarad am sut mae gwneud rhaglen deledu allan o lyfr. Roeddyn dangos sut roeddynt yn gwneud campau, ac fe ddywedodd wrthym mai nid Pici a Jabas oedd yn marchogaeth y ceffyl ond dynes.

Wedyn daeth mam Non, sef Mrs Alys Jones atom. Rwyf wedi darllen 'Mac Pync' ac mi oeddwn yn meddwl bod y llyfr yma yn ffantastig.

Daeth Mr. Dafydd Meirion wedyn i sôn am sut mae casio llyfrau. Nid oeddwn yn hoffi hyn o gwbl. Wedyn daeth Mr Davies i siarad am farchnata llyfrau. Roedd hyn yn waeth na dim! Ond erbyn diwedd y diwrnod, roedd popeth wedi mynd yn iawn.

Catrin Thomas, 2S

LANSIO NOFELAU'R AIL FLWYDDYN



DIWRNOD I'W GOFIO

Hoffwn ddweud gair bach am ddydd Iau, Mai 11fed. Roedd hi'n ddiwrnod byth-gofiadwy i'r ail flwyddyn i gyd, ar ôl misoedd o waith caled yn gweithio, a drafftio, a hel syniadau ar gyfer ein nofelau. O'r diwedd daeth y diwrnod i'w lansio nhw.

Cawsom ymweliadau gan awduron fel Mary Hughes ac Alys Jones, actores, a chyn ddisgybl yr ysgol, Rhian Cadwaladr. Wedyn gwelsom dameidiau o Jabas gan Norman Williams a oedd yn sôn am addasu nofelau ar gyfer y teledu.

Ac i'w orffen, sgwrs â Dafydd Mei o Gyhoeddiadau Mei, a'r

Cyngor Llyfrau Cymraeg, Phil Davies ac arddangosfa i ddisgyblion Ysgol Brynrefail.

Rhwng 5 a 7 o'r gloch gyda'r nos, daeth ein rhieni i'r ysgol i gael golwg ar y nofelau. Roedd pawb, rwy'n credu, wedi synnu gweld cymaint o waith wedi'i gwblhau gennym. Y cam nesaf yw darllen nofelau ein gilydd, ac anfon llythrau i lyfrgelloedd yn y gobaith y buasent yn hoffi benthyca'r nofelau. Y mae un ohonom wedi gyrru llythrau ar Wasg Gomer yn barod i holi a oes gan y Wasg ddiddordeb mewn cyhoeddi'r llyfr!


Hoffwn, ar ran pawb o'r ail flwyddyn, ddiolch i bawb a drefnodd ac a gymerodd ran yn y diwrnod.

Llinos Jones 2E

Iasau!!: Y mis hwn daeth llyfryn newydd sbon allan. Casgliad o holiaduron, straeon byrion a cherddi i gyd am ysbrydion. A phwy oedd awduron y llyfr hwn - neb llai na disgyblion blwyddyn 2E a 20 Ysgol Brynrefail, Llanrug. Os ydych yn berson nerfus eich natur, peidiwch â darllen y llyfr hwn, ond os ydych yn hoffi cael eich dychryn, dyma'r llyfr i chi!

Mae blwyddyn 2 wedi gweithio'n galed ar y cylchgrawn yma eleni. Rydym wedi bod yn drafftio ac ail-ddrafftio gwaith, wedyn bu rhai ohonom yn ei deipio neu brosesu'r gwaith ar y cyfrifiadur - ond mae pawb wedi gweithio'n galed arno. Mae pawb o 2E a 20 wedi cyfrannu rhyw stori neu gerdd i chwi ei darllen. Gyda llaw, bu Mrs Hughes a Mrs Owen yn gweithio'n galed yn ein helpu i deipio hefyd.

Os dewch ar draws y cylch-



grawn yma prynwch ef neu fe gewch golled fawr! Yr enw i edrych allan amdano yw - wel be arall ond - IASAU! a'r pris yw 30c:

Jacinta Kisalu 2E

BLAS AR 'JABAS'

Roedd hi'n ddydd Llun eto. Roedd plant ysgol gynradd Bethel wedi cael cyfle i weld Ysgol Brynrefail. Roeddem yn ein dosbarth cofrestru pan ddaeth Mrs Owen, athrawes dosbarth 10 i'n nôl ni i fyd i'r neuadd. Cafodd pob dosbarth yn y flwyddyn gyntaf blant o Ysgol Gynradd Bethel yn y gwersi gyda hwy drwy'r dydd. Dywedodd Mrs Owen wrth bawb ddychwelyd i'r dosbarthiadau a dod o'r wers gyntaf yn syth yn ôl i'r neuadd. Aethom i'n gwers gyntaf, sef coginio, a chawsom ddysgu sut i goginio sgoniau erbyn yr wythnos nesaf. Aeth y wers heibio yn sydyn iawn ac yr oedd pawb yn meddwl nawr am beth oedd yr athrawon eisiau i ni fynd i'r neuadd. Roeddem ar binau. Aethom i lawr y girisau coginio ac aethom yn syth i'r neuadd. Daeth Mrs Ellis, sef athrawes 1E i ddweud y newydd wrthym a dyma'i geiriau.

"Mae gennym ni, sef athrawon dosbarth 1, newydd da i chwi. Mae dau o griw Jabas yn dod yma i'ch gweld ac i ateb eich cwestiynau."

nau". Ddywedodd neb dim un gair, roedd pawb wedi synnu gymaint. Ar ôl i bawb gau eu cegau a llyncu eu poer gofynnol pwy oeddynt. Cawsom newydd da mewn un ffordd a drwg mewn ffordd arall.

Yr ymwelwyr oedd Glenda a Pici, sef Lowri Mererid a Harri Pritchard. Y newydd drwg oedd na fyddai Jabas, sef Owain Gwilym, yn medru dod. Ond ta waeth am hynny roedd distawrwydd llwyr yn y neuadd ac yna cerddodd Lowri a Harri i mewn. Roedd pawb wedi cynhyrfu gymaint, ddywedodd neb air ac mae hynny yn andros o anodd i blant a disgyblion Brynrefail.

"Ffwrdd â ni ta," meddai Lowri.

Gofynnodd Mrs Eyllt Jones a drefnodd yr ymweliad "Os oes ryw un gyda cwestiwn, rhowch eich llaw i fyny."

Am fod pawb wedi synnu gymaint ni ddywedodd neb air am ddwy funud gyfan. Wedyn aeth 'na law i fyny. Dechreuodd pawb ofyn cwestiynau ac roedd y bêl ar ei ffordd. Mewn tua 20 munud ar ôl llawer o gwestiynau cawsom fynd i gael eu llofnod. Roedd hynny yn GRET.

Y GLORIAN

Tŷ Birmingham, 6 Stryd Goodman

LLANBERIS

Arbedwch bunnoedd ar eich bil siopa wythnosol. Dewch i weld ein amrywiaeth eang o fwydydd

Siwgr, Cawl, Blawd, Cnau, Pasta, Fferins, Diodydd, Ffrwythau Sych, Grawnfwydydd etc.

CEWCH BWYSO EICH BWYD EICH HUN YN ÔL

EICH ANGEN

AR AGOR BOB DYDD 9-8pm

Roedd plant dosbarth un o Ddeiniolen wedi cael y profiad o actio efo Lowri o'r blaen, yn y rhaglen deledu SIGLEN, pan gafodd ei ffilmio yn Ninorwig. Ond nid oedd neb wedi cael y profiad o actio gyda Harri, felly roedd Lowri yn fwy adnabyddus na Harri. Ar ôl i bawb gael eu llofnod daeth tro blwyddyn dau i'w gweld. Yr oedd y rheini i weld llawn mor awyddus i'w gweld ag yr oedden ni ar ddechrau yr ail wers. Aethom o'r neuadd ac roedd pawb yn teimlo mor dda o gael cyfarfod y ddwy seren.

Nid oedd neb yn medru canolbwyntio yn yr ail wers, sef Cymraeg. Roedd hyn yn brofiad mor arbennig ac roedd pawb wedi synnu a mwynhau y diwrnod yma yn fwy na dim un diwrnod arall ym Mrynrefail.

Ar ôl mynd adref a chael bwyd gallaf eich sicrhau cafodd ein teuluoedd yr hanes i gyd.

Gobeithio y cawn fwy o ymweliadau fel hyn eto. Ydych chi'n clywed, Mrs Esyllt Jones.

Nia Land

CEUNANT

Gwenno Parri, Morawel

LLONGYFARCHIADAU i Mrs N Jones, Hafodol, ar fod yn hen nain, ganwyd mab, Llion Gethin, i'w hwyr a'i wraig, Dylan a Sharon Jones, Arfonia Terrace, Llanrug. CROESO ADRE o Ysbyty Gwynedd i Mrs Brenda Jones, Penhafodlas. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddi.

BYSUS BACH Y WLAD

Yn anffodus, rhaid dod a theithiau'r bysus bach i ben y mis hwn. Atgofion yn unig yw cynnwys yr erthyglau hyd yma. Yn yr erthygl hon atgofion a ffeithiau a geir. Bûm yn ffodus iawn o eistedd yn y sedd nesaf at R D Roberts, Gwaungynfi, Groeslon yn y Pasiant yn Theatr Seilo. Siarsiais ef i gofnodi ei atgofion o fsysus bach y wlad ar bapur ar gyfer y rhifyn hwn o'r Eco. Ni wnaeth fy siomi - dyma ei ymateb.

Diddorol iawn fu darllen erthygl Arwel Jones ar fsysus bach y wlad. Prociodd fy nghof amdanynt. Y cof cyntaf sydd gennyf yw clywed sôn am Foto Prosser (Prosser Roberts) a redai, os cofiaf yn iawn, o Benisarwaun i Gaernarfon. Ni welais i y bws hwnnw, hwyrach fod rhywun all gadarnhau hyn.

Yn gynnar yn nechrau'r ganrif, neu cynt o bosibl, y dechreuodd y Caernarfon Motors redeg o Ddeiniolen i Gaernarfon. Adnabyddid y bys gan rai fel Moto Aston ond cyfranddaliad yn y cwmni oedd gan y masnachdy hwnnw yn y busnes moduro mae'n debyg, gan eu bod yn hysbysebu eu nwyddau ar y bysus. I ni yn lleol, bys Hugh fyddai bob amser gan mai Hugh Roberts fyddai yn ei yrru. Cofiaf dad Arwel yn dechrau fel casglwr tocynnau a daeth yntau i gael ei adnabod fel Dic Moto. Un J T Jarret, o Gaernarfon oedd rheolwr y cwmni a John Owen, eto o Gaernarfon, fel Is-reolwr.

Rhedai'r bys o Ddeiniolen drwy

Fethel i Gaernarfon. Cofiaf i'r pris am y daith ôl a blaen fod rhwng dau swllt a hanner coron ar un cyfnod byr. Byddai gan y cwmni fys arall yn rhedeg o Glwt-y-Bont drwy Frynrefail a Chwm-y-Glo. Yng ngofal hwnnw yr oedd John Huws (Jac Huws Moto eto). Arferai bys Hugh redeg i Fangor ar ddydd Gwener.

Nodweddiadol o fsysus y cyfnod yna oedd hanes Arwel am ei dad yn mynd a gwn gydag ef. Gallaf gofio fel y bydden ni yn blant, wedi cael ein hanfon ar neges i'r pentref, yn gofalu bod ar allt yr Eglwys pan gyrrhaeddai'r bys er mwyn i ni allu neidio ar y platfform i gael ein cario weddill y daith fer. Cedwid y bys yn y modurdy ger Cynfi House.

Cwmni arall, fel y crybwyllwyd, oedd Rhiwen Motors a berchnogid gan J W Hughes a'i Feibion. Brwd iawn fyddai'r gystadleuaeth rhwng y ddau gwmni. Cychwynai Moto Hugh o Gynfi House, a'r Rhiwen o Ddinorwig. Pan ddeuai y Rhiwen i'r golwg ar dop Gallt-y-Foel byddai'r Caernarfon Motors yn cychwyn ar ei daith o Cynfi House gan godi'r cwsmeriaid, oherwydd hyn ni fyddai perthynas y ddau gwmni yn un agos o bell ffordd.

Yn fuan wedyn cafodd yr ardal wasanaeth bysus arall, y Blue Peris Motors, os cofiaf yn iawn a redai o'r Allt Ddu ac a berchnogid gan Hugh Seth Jones a'i Fab o 'Dy'n y Fawnog', Dinorwig. Am rhyw reswm byr fu parhad y bysus yn.

Trown eto at gwmni arall a ddaeth i fod sef y Dinorwig Motors, perchnogion y tro hwn, Richard Preis 'Bigil' a John Owen, Frondeg ac yn ddiweddarach, Cernyw Jones o Benisarwaun, hwn eto yn rhedeg o Ddinorwig. Ar y bys hwn y gwelais y 'pneumatic tyre' cyntaf.

Teg hefyd fyddai cofnodi i John Hughes, a fu gyda'r Caernarfon Motors, pan ddaeth y cwmni i

ben, iddo redeg bys ar ei liwt ei hun o Glwt-y-Bont am gyfnod byr.

Dyma fraslun o'r cyfnod cynnar. Pennod arall i'w thrafod yw cyfnod y Deiniolen Motors a redai i Fangor ac a berchnogid gan J W Hughes, nid yr un â'r Rhiwen wrth gwrs, ac a fu'n gwasanaethu o tua 1925 hyd yn ddiweddar. Rhamant yn wir yw hanes Bysus Bach y Wlad, nad oes ofod i'w cofnodi yma!!

Llawer o ddiolch i R D Roberts am yr atgofion a'r ffeithiau.

Mae fy nyled hefyd i Walter Jones o Ddeganwy, ond brodor o Ddyffryn Peris am y ffeithiau swmpus am gwmni arall a wasanaethai'r fro. Cafodd y cwmni, a sefydlwyd gan George Crosland Taylor, ddipyn o ddylanwad ar y cwmnïau bychain pan gychwynasant eu gwasanaeth o Gaernarfon i bentrefi'r fro yny flwyddyn 1925. Dyma flwyddyn dyfodiad y "bwgan mawr" o safbwynt cwmnïau bysus bach y wlad.

Dyma ddyfodiad CROSVILLE. Yn Nhachwedd 1925 fe brynodd y cwmni fusnes Richards (Busy Bee). Ymhen tair blynedd prynasant gwmni fy nhad a'i deulu - Bysus Peris. Dyma i chwi restr o gwmnïau bychain eraill a brynwyd gan Crosville.

Cwmni Thomas John Edwards a redai rhwng Caernarfon a Brynrefail yn 1928; Cynfi Motors, Deiniolen yn 1929; J.W. Hughes, Rhiwen yn 1932; W.D. Humphreys, Bethel yn 1936; L.J. Roberts, Tanycoed yn 1939.

Ond eto methiant fu ymdrech y cwmni anferth hwn i lyncu'r cyfan. Yn wir mae rhai cwmnïau wedi sefyll ochr yn ochr â hwy ar y Maes yng Nghaernarfon ar hyd y blynnyddoedd. Fyddai Maes Caernarfon ddim wedi bod yr un fath rhywsut heb i fsysus Silver Star, Express a Whiteways sefyll yn dalog ochr yn ochr â'r 'fyddin werdd'. Mae'n hyfryd gallu nodi hefyd ar derfyn y gyfres fod Bysus Bach Y Wlad yn dal eu tir o hyd ac yn mynd o nerth i nerth. Hir oes iddynt.

"Rhaid talu teyrnged pwy a wâd I lu o fsysus bach y wlad."

Arwel Jones

TIR AC ADEILADAU AR GYFER DATBLYGU ECONOMAIDD YN ARFON

Y mae'r Cyngor wrthi'n ddyfal yn ystyried ehangu ei ddarpariaeth bresennol o adeiladau a thir diwydiannol. I'r diben hwn, hoffai gael tystiolaeth oddi wrth diwydiant lleol ynglyn â graddfa'r galw tebygol ynghyd a'i natur a'i leoliad.

Dymuna'r Cyngor felly wahodd ffyrniau ac unigolion sy'n ystyried o ddifrif symud i Arfon neu ehangu o fewn y Fwrdeistref neu sefydlu busnes o'r newydd o fewn y tair mlynedd nesaf i gysylltu a'r Cyngor.

Bydd pob gohebiaeth ac ymholiad yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol.

Manylion a gwybodaeth pellach oddi wrth:

Yr Uned Datblygu Economaidd a Thwristiaeth
Cyngor Bwrdeistref
Arfon
Cwellyn
Ffordd Llanberis
Caernarfon
LL55 2DF



CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grant o'r gronfa uchod. Anfoner am y manylion a'r ffurflenni cais at

Aled Owen

**13 Charlotte Street, Llanberis
Dyddiad cau : Awst 31**

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

DATHLU PEN-BLWYDD:

Llongyfarchiadau i Mrs Hannah Jane Jones, 7 Trem Eilian ar ddathlu ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed ar Fai 9fed. Cyd-ddigwyddiad hapus ar yr un diwrnod oedd i Dylan, wyr i Mrs Jones, a'i briod, Sandra, gyrraedd yma o Seland Newydd. Ganwyd Dylan yn Seland Newydd, yn fab ieuen-gaf i'r diweddar Mr Eirywn Jones a'i briod Shirley. Mae Mrs Jones yn dymuno diolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar yr achlysur. Un anrheg go arbennig oedd cael teithio dros fro'r Eco mewn awyren!

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Mrs Maggie Closs Parry, Bryniol a ddathlodd ei phen-blwydd yn 86 oed ar Ebrill 23ain. Pob dymuniad da, Mrs Parry.

CYMANFA DOSBARTH PADARN: Cynhaliwyd Cymanfa Flynyddol y Presbyteriaid eleni yng Nghapel Cefnywaun, Deiniolen ddydd Sul, Mai 7fed. Llongyfarchiadau i'r canlynol o aelodau Ysgol Sul Brynrefail am eu gwaith ym maes yr Arholiad Llafar: Rhian Owen, Amy Lambert, Iestyn Williams, Rhian Davies, Nicola Houston, Mrs Carol Houston, Miss Lowri Prys Roberts, Mrs Jennie Angharad Roberts a Mr Richard Wyn Evans. Ymhlith yr arholwyr roedd Mrs Mair Davies a Mrs Ifanwy Jones, dwy o athrawesau'r Ysgol Sul.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Yng nghyfarfyddiad y mis, nos Lun, Mai 15fed, treuliodd y noson yng nghwmni'r llywydd, Mrs Pat Jones a oedd yn gweithredu fel VCO ac yn trafod argymhellion y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir yn Llundain. Rhoddwyd y te gan Mrs Mair Jones a Mrs Jean Davies ac enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Pat Jones, gan Mrs Jean Davies. Dymunwyd yn dda i bedair o aelodau'r gangen fydd yn cymryd rhan yn y cyngerdd i ddathlu Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst, yn yr Arcadia Llandudno nos Wener, Mai 19eg - un yn y grwp dawnsio gwerin a thair yn y côr. Dydd Sadwrn, Mehefin 3ydd

bydd cangen Brynrefail ynghyd â changen Arfon yn cymryd gofal o stondin Sefydliad y Merched yn yr Arddangosfa Ffermio a Bwydydd a gynhelir yng Ngholeg Glynllifon. Llongyfarchwyd hefyd Mr a Mrs Oswald Davies ar ddathlu eu priodas ruddem yn ddiweddar. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Mehefin 19eg.

LLWYDDIANT: Rydym yn falch o longyfarch Iestyn Jones, 3 Trem Eilian unwaith eto, am ei lwyddiant ym Mabolgampau Colegau Cymru. Enillodd Iestyn y fedal aur am daflu'r morthwyl, y fedal efydd gyda'r ddisgen a'r ras gyfnewid. Yn ogystal, mae tîm Rygbi'r Gynghrair Coleg Cyncoed, lle mae'n aelod, wedi dod yn Bencampwyr Colegau Prydain.

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs. Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen (Caernarfon 3536)

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn ddiweddar yn y Festri, Caeathro. Etholwyd Mrs Pat Parry fel Cadeirydd ar gyfer eleni a Mr Rol Williams fel is-Gadeirydd. Croesawyd y Cynghorydd Sir newydd, Mr Eurig Wyn, gan y Cadeirydd. Ym marn yr aelodau lleol mae digon o arwyddion yn cyfeirio at y pentref yn barod, ac nid oes angen ychwaneg. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Bwyllgor Apêl Caeathro Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Nantlle am rodd y Cyngor tuag at gronfa'r pentref. Bydd y ffordd o Rosbach i Ysbyty yn parhau ar gau hyd at Mai 31. Ceisir cael Antur Waunfawr i dorri a thrwsio Prysgol; sicrhau pafin o'r Capel i'r Garej; clirio mwy o sbwriel ger

mynedfa Glangwna; gwagu'r gwllger Ty'n Coed a thacloso'r llain weladwy ger Erw Wen.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Atkinson, Cefn Gof, ar fod yn daid a nain am y tro cyntaf.

POB LWC i bawb o blant y pentref sy'n sefyll arholiadau yn yr wythnosau nesaf.

GWELLHAD BUAN i Mr F. Henderson, 6 Erw Wen, sydd wedi cael llawdriniaeth yn yr ysbyty. Brysiwch wella Yncl Frank.

GER Y TÂN: Cafwyd noson blesurus iawn ym Maes-y-Coed y mis diwethaf, pan y dangoswyd sleidiau o'u gwyliau yn yr India gan Michael a Marian o'r Groeslon. Bydd y tymor yn dod i ben gyda pryd o fwyd yng ngwesty Castell Cidwm ar Fehefin 21.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Owen, 10 Bryn Gôf, a'r teulu, yn eu profedigaeth. Bu farw Mr Owen yn sydyn iawn yn ei gartref yn ddiweddar.

CYMANFA YSGOLION SUL, DOSBARTH PADARN

Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Padarn yng Nghapel Cefnywaun M.C., Deiniolen pnawn a nos Sul, Mai 7fed, 1989. Arweinydd y Gân oedd Mr Robin Jones, Bethel a'r organyddion oedd Mrs M C Griffith a Mrs G W Williams, Cefnywaun. Arweiniwyd cyfarfod y prynhawn gan Mr E Williams a chyfarfod yr hwyr gan Mr D W Williams, y ddau o Gefnywaun. Dechreuwyd cyfarfod y prynhawn gan blant Ysgol Sul Cefnywaun a chyfarfod yr hwyr gan Dylan W Williams ac Iwan Williams, ac yn ystod cyfarfod yr hwyr cafwyd eitem gerdorol gan aelodau ifanc Cefnywaun, Disgwylfa a'r Cysegr.

Dyma'r canlyniadau:

Arholiad Llafar

Dan 4 oed: 1. Iwan Jones, Bethan Roberts, Owain Morris a Rhys Morris, Capel Coch; Amy Lambert, Rhian Owen, Brynrefail; Gwen Rowlands, Cysegr a Stephanie Claire Williams, Cefnywaun; Sioned Williams, Capel Coch. **Dan 5 oed:** 1. Aled Vaughan Roberts, Gwenan Jones, Iwan Morris, Cysegr; Eirian Sion,

Cefnywaun; Iestyn Williams, Brynrefail; Huw Jones, Cysegr. **Dan 6 oed:** 1. Marc Evans, Capel Coch ac Ifan Rowlands, Cysegr; Gareth Jones, Capel Coch. **Dan 7 oed:** 1. Richard Jones, Disgwylfa; Alaw Mari Hughes ac Owain Gethin Williams, Cefnywaun, Sioned Catrin Davies a Robin Owen, Cysegr; Mari Wyn Williams, Capel Coch.

Dan 8 oed: 1. Gwynfor Jones, Delyth Morris, Catrin Roberts, Nia Watkin Jones, Bethan Williams, Annest Williams, Gerallt Dion Hughes, Dewi Lloyd Griffiths a Meilir Emrys, Cysegr; 2. Kelly Williams, Cysegr, Elfed J Williams a Bethan Williams, Disgwylfa.

Dan 9 oed: 1. Rhian Wyn Davies, Brynrefail, Dyfan P Ellis, Lowri Williams, Elen Jones, Richard Charles Parry, Cysegr; 2. Dafydd Tomos Parry, Catrin Angharad Roberts a Rhys Lloyd Jones, Cysegr.

Dan 10 oed: 1. Gethin Davies, Carwyn John Morris a Rhodri Roberts, Cysegr. **Dan 11 oed:** 1. Catrin Hughes a Gwenan Elis, Cysegr; 2. Elena Williams,

Disgwylfa, Llinos Wyn Morris a Nia Jones, Cysegr; 3. Euros Williams, Cefnywaun.

Dan 12 oed: 1. Llinos Angharad Morris, Llinos Ann Roberts a Donna Marie Williams, Cysegr.

Dan 13 oed: 1. Eilir Williams, Cefnywaun a Menna Dauncey Williams, Cysegr; 2. Nicola Houston, Brynrefail. **Dan 14 oed:** 1. Bethan Jones a Ruth Parry, Cysegr.

Cyd-adrodd dan 11 oed: 1. Parti Gethin, Parti Catrin a Pharti Angharad, Cysegr. **Cyd-adrodd dan 16 oed:** 1. Parti Nia Elin, Cysegr. **Dan 50:** Mrs Carol Houston a Miss Lowri P Roberts, Brynrefail; **Dros 50 oed:** Mrs M Thomas, Cefnywaun; Mrs Betty Roberts a Miss Marian Jones, Dinorwig; Mr Richard Evans a Mrs Angharad Jones, Brynrefail; Mrs Nan Owen, Cysegr.

Carai'r pwyllgor ddiolch yn fawr i aelodau Capel Cefnywaun am gynnal y Gymanfa, am y te a'r gwaith fu ar baratoi gwasanaeth dechreuol y prynhawn gyda'r eitem gerddorol - roeddent yn wych. Diolch yn fawr iawn i bawb.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR 291 Hefyd ail-osod carpedi

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Am wasanaeth fframio
cyflawn - LLUNIAU
TYSTYSGRIFAU,
TAPESTRI:-

ELWYN PRITCHARD

Fframiwr Lluniau/
Telynau Gwynedd
Parc Padarn
LLANBERIS

870922 neu Bangor 351427
cesglir a danfonir i'ch
cartref os dymunwch

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

DIOLCH: Dymuna Mrs Margaret Williams, Goleufryn ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdigion am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Joan Ware, Swyddfa'r Post yn ei phroffedi-gaeth o golli ei chwaer.

LLONGYFARCHIADAU i Catrin Gwyn, Min y Nant, ar ei llwyddiant yn yr arholiad telyn Gradd 3, ac arholiad Piano Gradd 6 a gynhaliwyd dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod Llundain.

UNDEB Y MAMAU: Cynhaliwyd cyfarfod i Aelodau Undeb y Mamau yn Hafan Elan, Llanrug nos 1au, 4 Mai. Yn absenoldeb Mrs Enid Taylor oherwydd salwch, trafodwyd rhai materion gan yr ysgrifenyddes. Mrs Joyce Rawson oedd y wraig wadd a soniodd am y pleser oedd i'w gael wrth gosio lliainiau i'w defnyddio yn yr Eglwys. Diolchwyd i Mrs Rawson gan Mrs Gwyneth Roberts. Yn gofalu am y lluniaeth roedd Mrs C Jones, Mrs M Roberts a Mrs L Jones. Diolchwyd iddynt gan Mrs D Pierce. Enillwyd y raffl gan Mrs Gwyneth Roberts.

Nos Fawrth, 16 Mai cynhaliwyd Gwyl Ddeoniaeth Undeb y Mamau yn Eglwys Crist, Llandinorwig. Aeth nifer dda o'r aelodau i'r Wyl. Cariwyd y faner gan Mrs Bet Jones, Llanrug.

EGLWYS SANT GABRIEL: Yn Eglwys y Plwyf ar y 7 o Fai derbyniodd pum aelod o'r Eglwys eu Bedydd Esgob gan y Gwir Barch J Cleddan Mears, Esgob Bangor. Yn cynorthwyo yr Esgob oedd y Deon Gwlad, y Parch David Noel Jones a'r Parch Tegid Roberts.

Cynhaliwyd Gwyl Gorawl Eryri yn Eglwys Crist Llandinorwig ddydd Sul, 21 Mai. Derbyniodd y canlynol Dystysgrifau, Carys, Bethan, Terry, Arwyn, Keith a Carys Ann.

Y mae Nia Wyn Huws i'w llongyfarch am wneud poster ar gyfer yr Wyl Gorawl, a derbyniodd fedal am ei gwaith arbennig o dda.

YR YSGOL GYMUNED:

Uned 4: Bu'r plant hynaf yn Ysgol Brynrefail am ddiwrnod i ymweld ac ymgynffwrdd â'r lle. Maent yn gwybod rwan sut mae pysgodyn bychan yn teimlo mewn pwll mawr!

Sbondonics: Cafodd aelodau'r Clwb Llyfrau Cymraeg gyfle i fynd i Ysgol Llanrug i fwynhau sioe am lyfrau Cymraeg. Yr oedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn a chafodd Rhys gyfle i godi ei fawd ar rai o'i hen ffrindiau.

Gwasanaethau: Yn ddiweddar, cawsom dri gwasanaeth arbennig. I'r cyntaf, daeth y Parch John Morris, Brynrefail i'n hannerch. Diolch iddo am arwain pawb mewn addoliad cofiadwy.

Yr oedd y ddau wasanaeth arall yng ngofal y plant. Bu Uned 1 a 2

yn gyfrifol am wasanaeth am Joseff, oedd yn rhan o'u gwaith ar y thema "Lliwiau".

Gwasanaeth Dydd Ewyllys Da oedd y llall a chymerwyd rhan gan Terry, Carwyn, David, Donna, Bethan a Sara. Yr oedd y gwasanaeth hwn wedi ei seilio ar drefn gwasanaeth Edward Morus Jones - hen ffrind i'r Urdd.

Bingo: Ar nos Fawrth, Ebrill 25ain, yr oed Neuadd yr Ysgol yn or-lawn o bobl. Daeth pawb ynghyd i chwarae bingo, i fwynhau eu hunain a chodi arian tuag at Gronfa'r Ysgol. Diolch i bab am eu cefnogaeth, eu hymdrech a'u cwmni ar y noson.

Dyma restr lawn o'r sawl a fu'n ffodus yn y Raffl Fawr:

Tegan Meddal; Len, 6 Dolafon; Tocyn llyfr: M J Owen, Deiniolen; Sheri: Glenda Roberts, Brynrefail; Sheri eto: Huw Davies, Alexandra House; Gwin: Mrs Evans, Ty Newydd; Ornament: Eleri, 13 Dolafon; Powdr Talc: 12 Stryd Fawr, Deiniolen; Siocled: Rhys Morris, Brynrefail; Gwydrau: 11 Stryd Fawr, Deiniolen; Bisgedi: Ty'n Ffridd, Allt Goch; Hand & Body Lotion (Drewi Neis!): H Orritt, Moranedd.

Raffl ar y Noson: Basgedi Bwyd: E Roberts, Dddol Bach; S Shaw, St David's; Vera Price, Tan y Graig; C Foulkes, Tan y Bryn; Bethan Hughes, 17 Dolafon; H Orritt, Moranedd; Ellen Williams, Rachub.

Rhagor o win: Donna Williams, Glanbogelyn; Oriawr: Sioned Jones, Isfryn.

Gwnaed elw ar y noson o £224.50 ac fe'i gwerir er budd y plant.

Cwis Rheolau'r Ffordd Fawr: Bu pedwar o blant yr ysgol - Gareth Davies, Paula Roberts, Martin Parry a Bryn Evans yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth a daethant yn ail drwy ddalgylch Caernarfon. Da iawn chi a diolch i Darren Williams a Tony Roberts am fod mor barod i helpu. Bu'r ail rownd fore Llun, Mai 22ain yn Ysgol Llanllyfni yn erbyn Ysgolion y Gelli, Borth y Gest a'r Faenol. Trydydd oedd y tîm y tro yma. Dymuniadau gorau i Ysgol y Gelli yn y rownd nesaf.

Glynllifon: Cafodd plant Uned 4 wythnos fendigedig yng Ngholeg Glynllifon. 'Doedd yr un ohonynt hiraeth, medda nhw, am neb na dim ond coginio Mrs Jean Hughes. Diolch, gyda llaw, am y llythyrau.

Beics: Mae plant Uned 3 wedi dechrau ar gyfres o wersi Hyfedredd Trin Beic efo Mr Dafydd Edwardas. (Rhagor o waith dysgu rheolau mae arnaf ofn - ond fod y cyfan yn werth ei wneud).

Pêl-droed: Mewn gêm glos iawn ar gae Ysgol Llandwrog, cafwyd gêm gyfartal o dair gôl yr un rhwng hogia ni a thîm Coed y Glyn. Gwelwyd pêl-droed da a'r

dyrfa yn mwynhau eu hunain drwy gydol y gêm.

Edrychir ymlaen yn eiddgar at y gêm nesaf ar gae Cwm y Glo. Terry, Darren a Glyn Price sgoriodd i ni, gyda llaw.

Yr Urdd: Oherwydd trefniadau eraill, bu rhaid gohirio dau gyfarfod o'r adran ond cafodd pawb bleser ac addysg yng Ngorsaf Ddan Caernarfon ar Ebrill 19eg.

Treuliwyd noson arall yn ymarfer a dewis tîm ar gyfer y Mabolgampau ar Fai 17eg. Yno, gwnaeth pawb eu gorau, er gwaethaf y glaw a bu Darren Williams, Martin Parry a Paul Pointer yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth Daflu Pêl. Bydd Darren a Paul yn ymddangos ym Mabolgampau'r Sir ym Mangor ar Fehefin 21ain.

Diolch i bawb, hefyd, am eu cefnogaeth i Stondin Cwm y Glo yng Ngholeg Glynllifon yn ystod yr Wyl Gyheddi yno. Gwnaed elw parchus ac fe'i ychwanegir i gyfanswm y Gronfa Apêl leol.

Y Deillion: Mae'r ysgol yn parhau i dderbyn rhoddion o bapur a ffoil arian er mwyn ei drsglwyddo i Gymdeithas y Deillion.

Diolch i chi sydd wedi anfon peth yma. Cawsom neges ffôn yn diolch amdano fore heddiw (Mai 23ain) ac yn apelio am fwy. Cofiwch amdanom felly.

Gyda llaw, diolch i Mrs Lloyd Owen am gymryd cyfrifoldeb o dderbyn llond sach mawr o ffoil arian.

Wel, dyna ni am y tro. Peidiwch a threulio gormod o amser yn yr haul. Gwell o laawer fydd i chi gadw'n heini a pharatoi ar gyfer Mabolgampau'r Cwm - a gynhelir yn nes ymlaen yn y tymor. Cewch fwy o fanylion eto.

CLWB IEUENCTID: Ar ddiwedd tymor y Clwb mis diwethaf (Mai) bu i Mrs Morfudd Thomas gyhoeddi na fyddai hi yn ymgymeryd â dyletswyddau is-arweinyddiaeth y Clwb o fis Medi nesaf ymlaen. Oherwydd hyn hoffai'r Arweinydd ac aelodau y Clwb ddiolch o galon iddi am ei chefnogaeth a'i chyfraniad i weithgareddau'r Clwb yn ystod y tymor a hanner diwethaf. Dumunir pob llwyddiaent iddi yn y dyfodol.

CYMANFA'R ANNIBYNWYR: Cynhaliwyd Cymanfa Dosbarth

Cwm-y-Glo yng Nghapel Y Tabernacl, dydd Sul, Ebrill 30ain. Llywydd y prynhawn yng ngwasanaeth y plant oedd Mr Robert Lloyd, a chymerwyd y rhan agoriadol gan y Parch Gwynfor Williams. Y thema eleni oedd 'Dilwynwr Iesu Grist' a chafwyd hanes Mari Jones gan blant eglwys Nant Padarn, hanes Gladys Aylward gan blant eglwys Bosra a hanes y Pedward Pysgotwr gan blant eglwys Ebeneser. Yna emyn 'Pwy a Wnaeth' gan ddau bach ifanc iawn o eglwys Jerusalem gyda'r gynulleidfa yn ymuno gyda hwy yn y bennill olaf. Diolchwyd i'r plant am waith canmoladwy iawn ac i'w hathrawon am eu hyfforddi gan y Parch Gwynfor Williams.

Yng nghyfarfod yr hwyr cymerwyd y rhan agoriadol gan Mr Llew Hughes, a'r llywydd oedd y Parch John Pritchard. Arwenydd y ddau gyfarfod oedd Miss Lowri Roberts, Brynrefail, a'r organydd oedd Mr John Jones. Diolchwyd gan y Parch John Pritchard i bawb am eu gwaith i lwyddiant y Gymanfa.

GWELLHAD BUAN: Dymunwn wellhd llwyr a buan i Mrs Ifanwy Jones, Min-y-Nant ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Dewi Sant.

CLWB POBOL Y CWM: Mr H. R. Jones, Llanberis, oedd ein gwr gwadd pnawn 1au, Mai 18, a chroesawyd ef gan y llywydd, Mr Llew Hughes. Rhoddodd hanes cychwyn Chwael Dinorwig hyd ei chau ym 1969. Gyda phrofiad helaeth fel peiriannydd ac yn ymweld yn ei waith a gwahanol adrannau o'r chwael roedd ei atgofion yn hynod ddiddorol. Soniai am amrywiol gymeriadau yn cynnwys rhai a doniau arbenig fel arweinyddion cymdeithasol. Er mor galed y gwaith nid oedd yn ymharu ar gymdeithas glos ymysg y gweithwyr. Roedd hiwmor iach hefyd yn nodwedd o fywyd y chwaelwr. Diolchwyd iddo gan Mr R. H. Parry. Mrs R. Parry a Mrs R. H. Parry oedd yn gyfrifol am y baned a'r raffl. Enillwyd y raffl gan Mrs K. Watkins.

YN EISIAU
Benthyg llun o OFFIS GOCYN
ger Llyn Peris
Cysyllter â Bill Harrison,
'Cynlas', Bro Gethin, Betws-y-Coed.

Bistro

43-45 STRYD

FAWR

LLANBERIS

Ffôn: 871781



CURIAD CALON CYMRU

hefyd yn ystod y dydd

Bistro Bach

Y MAES

CAERNARFON

Ffôn: 3075



CURIAD CALON CYMRU

LLYFRAU NEWYDD

Cwestiynau Aml-Ddewis Mathemateg TGAU

C. Plumptre ac E. Shipton
(Addas. Glenys Jones a Meirion Stephens)
Cydbwyllgor Addysg Cymru.
£2.00

Addasiad Cymraeg o'r Llyfr
Multiple Choice Mathematics for
GCSE ar gyfer disgyblion Lefel 1-
3 cwrs TGAU.

Cwm Hebog

Hugh D Jones
Gwasg Gomer £3.50
Lladrad beiddgar, llofruddiaeth a
herwgipiad; dyna rai o'r pethau
sy'n digwydd yn y gymdogaeth
glos ar gyrion Cwm Hebog. Nofel
i'r arddedau.

Cwrs Ffiseg

W D Hugh Rees
Cydbwyllgor Addysg Cymru.
£5.00
Gwerslyfr ar gyfer disgyblion sy'n
dilyn cyrsiau gwyddoniaeth trwy
gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol
uwchradd.

Cyflwyno Tri Dimensiwn

Addas. Glenys Jones
Cydbwyllgor Addysg Cymru 40c.
Addasiad Cymraeg o bennod
allan o Graded Examples in
Mathematics: Geometry and
Trigonometry ar gyfer disgyblion
cwrs TGAU Lefel 3 a
Mathemateg Lefel A.

Cyfes Beibl a Chrefydd:

8. Arweiniad i'r Testament
Newydd: Cyfrol 3 - Yr Epistolau
Cyffredinol
Eryl Wynn Davies
Gwasg Prifysgol Cymru £8.95
Y ddiweddaraf o dair cyfrol sy'n
rhoi arweiniad i'r Testament
Newydd mewn cyfes yn
ymwneud â'r Beibl.

Cyfes Gwyddoniaeth Plant Bach:

Llyfrau Darllen Cynnar 1-4
Enid Hargrave a Janet Brooks
Llyfr 1: Yn yr Ardd
Llyfr 2: Gwaith yn y Ty
Llyfr 3: Trafnidiaeth
Llyfr 4: Y Fferm

Y Ganolfan Adnoddau,
Aberystwyth. £5.25 am set o 4 llyfr
Cyfres o lyfrau darllen sy'n
cyflwyno amrywiol agweddau ar
amgylchfyd plentyn drwy gyn-
nwys testun byr a lluniau lliw-
llawn.

Cyfes SMP 11-16

Llyfr M2 (Melyn 2)
Cydbwyllgor Addysg Cymru.
£3.75
Un mewn cyfres o lyfrau sy'n
gwrs mathemateg ar gyfer blyny-
ddoedd 3, 4 a 5 mewn ysgolion
uwchradd.

Cyfes Snwfflyn Pwydipwy:

Jim ac Ali Keys. Cyf. Heulwen
Jones

Snwfflyn Pwydipwy a'r Dreignod

Snwfflyn Pwydipwy a'r Peth
Solet
Cyhoeddiadau'r Ddeilen Werdd.
£1.99
Dau lyfr stori, gyda lluniau lliw, i'w
darllen i blant bach.

Cyfes Storiâu Cyntaf:

Lluniau: Stephen Cartwright.
Cymraeg: Roger Bore
Hugan Fach Goch. £1.50
Penfelyn a'r Tri Arth
Tri Mochyn Bach
Rympelstiltskin
Sinderela
Y Rhain Gwsg
Gwasg y Dref Wen. £1.50
Chwe llyfr yn cyflwyno hen ffe-
frynnau mewn gwedd newydd,
liwgar.

Cyfes Storiâu Gerallt

Ann Tegwen Hughes. Lluniau Wil
Rowlands
Dyma Gerallt
Siopa Mewn Wigwam
Gwasg Dwyfor. £2.25
Dau lyfr stori gyda lluniau lliw, i
blant bach.

Her Llanfaches

Nan Lewis
Ty John Penry. £1.50
Llyfr i blant yn dathlu sefydlu'r
Achos Annibynnol cyntaf ym
1639, yn Llanfaches. Darluniau
du-a-gwyn.

Llyfrau Llafar Gwlad:

12. Dal Pysgod
Emrys Evans
Gwasg Carreg Gwalch. £1.50
Cyfrol yn ymdrin ag amrywiol
agweddau'r grefft o bysgota yng
Nghymru, ynghyd â'r traddodi-
adau niferus sydd ynghlwm wrthi.

Project Defnyddiau ac Adnoddau y Swyddfa Gymreig

(Disgyblion Hyn):
Daearyddiaeth
Dyn a Thirwedd
Siân Jones ac M Eluned
Rowlands
Y Ganolfan Adnoddau,
Aberystwyth. £2.50
Gwerslyfr yn dangos sut mae dyn
yn cyd-fyw â'i amgylchfyd a sut y
mae wedi, ac yn, mowldio'r tir-
wedd i'w ddibenion ei hun.

Project Defnyddiau ac Adnoddau y Swyddfa Gymreig

(Disgyblion Hyn): Hanes
Llywelyn Ein Llyw Olaf
John Wynn Roberts
Y Ganolfan Adnoddau,
Aberystwyth. £2.50
Golwg ar yrfa Llywelyn, wedi ei
seilio ar dystiolaeth mapiau a
dogfennau.

Y Testament Newydd

Cymdeithas y Beibl. £4.50
c. efelychiad o ledr gwyn £6.95
Cyfieithiad cyfoes mewn dau
argraffiad cyflwyno. Maint poced.

Ysgrifau Beirniadol 15

Gol. J E Caerwyn Williams
Gwasg Gee. £9.00
Y bymthegfed gyfrol mewn cyfes
o gasgliadau o ysgrifau yn
ymwneud â'n llenyddiaeth.

CAFFI PADARN - MENTER FACHWEN

Dydd Sadwrn, Mai 27 ail agorwyd Caffi Padarn yn Amgueddfa
Ysbyty'r Chwael yn Llanberis. Hwn fydd yr ail dymor haf i'r
caffi fod ar agor. Agorwyd Caffi Padarn gyntaf yn ystod haf 1988
ac yna am gyfnod byr dros Wyl y Pasg eleni, pryd y darparwyd
gwasanaeth arlwyaeth gan bobl ag anawsterau dysgu (anfantais
meddwl) ar gyfer ymwelwyr â'r Amgueddfa.

Rhan o weithgaredd Menter
Fachwen yw'r caffi, ac er mai
cynllun a fydd yn canolbwyntio ar
roi cyfle gwaith i bobl ag anaw-
sterau dysgu ym maes cadwraeth
natur a choedwigaeth ydyw, man-
teisiwyd ar y cyfle i redeg caffi fel
modd o sicrhau cyfle gwaith tra'n
disgwyl i'r cynllun gwreiddiol
gael ei sefydlu'n weithredol.

Ar fyr rybydd y flwyddyn
diwethaf llwyddodd Menter
Fachwen i sefydlu'r caffi gyda
chymorth a chydweithrediad
mudiadau gwirfoddol, busnesau
ac unigolion lleol, pan gynigiodd
Adran Cynllunio Cyngor Sir
Gwynedd ystafelloedd yn yr
Amgueddfa at ddefnydd caffi. O
fewn llai na phythefnos roedd y
caffi yn croesawu ei gwsmeriaid
cyntaf ac erbyn diwedd yr haf
roedd chwe pherson ag anawster-
au dysgu wedi derbyn profiad
gwaith.

Unwaith eto'r flwyddyn hon
mae Menter Fachwen, sydd erbyn
heddiw yn gwmni wedi ei gyfyn-
gu drwy warant ac wedi ei gofre-
stru gyda'r Comisiwn Elusen, yn
bwriadu rhoi yr un cynnig gwaith

i bobl ag anawsterau dysgu. Ond
er mwyn sicrhau hyn bydd yn
ofynnol unwaith eto i gael help
gwirfoddolwyr i roi cymorth a
chefnogaeth dyddiol yn y caffi.

Os oes rhywun â'r diddordeb i
wirfoddoli ac i ymgymryd â'r
gwaith hwn am ychydig oriau neu
ddiwrnod pob wythnos bydd
Menter Fachwen yn falch o gly-
wed oddi wrthyh. Os am wybod
daeth bellach cysylltwch â Phil a
Maureen Edwards, 870118 neu
Dick a Mary Jones, 871261.

DRAENOG



Druan o'r plant, ar ôl clywed fod
eu hathro yn gadael yr ysgol,
dyma nhw'n rhoi glud ar ei
gadair er mwyn ei gadw yno,
ond nid glud mo'r stwff yn y
tiwb, ond past dannedd - druan
o'i wraig, a gafodd goblyn o
drafferth i gael pen ôl ei drow-
sus yn lân.

+

J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2989
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag
ERIC JONES
17 BRYN TIRION
PENISARWAUN
Ffôn: LLANBERIS 872421

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir (831043)

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan, nos Iau, Ebrill 27. Yn absenoldeb Mrs Hannah Jones a Mrs Jan Davies llywyddwyd y cyfarfod gan yr ysgrifenyddes. Darllenwyd y cofnodion a'u harwyddo gan y drysoryddes a darllenwyd y llythyr misol.

Croesawyd Mrs Netta Jones a Mrs Mary Jackson yn ôl i'n plith.

Cafwyd trafodaeth ar y materion gerbron y cyfarfod blynyddol yn Llundain mis Mehefin.

Cafwyd arwerthiant 'Moes a Phryn' gan yr aelodau.

Y gwestwagedd oedd Mrs Netta Jones, Mrs A. B. Jones, Mrs Hannah Jones a Mrs Arvonja Evans. Diolchwyd iddynt gan Mrs Dwynwen Roberts. Enillwyd y raffl gan Mrs. Jane Jones a Mrs Mary Jackson.

LLONGYFARCHIADAU i Enid Lloyd Roberts, Maes Padarn, ar fod yn hen nain am y degfed tro, ar enedigaeth mab bach, Dafydd, i Alun ac Eirian yng Nghaernarfon.

DIOLCH. Dymuna Mamie Parry ddiolch i bawb am bob help a chymwynas a dderbyniodd ar ôl ei damwain yn ddiweddar, hefyd am yr anrhegion, blodau a chardiau. Diolch yn fawr iawn i bawb.

DYMUNIADAU penblwydd hapus iawn i Darren Owen, 15 Dôl Elidir, Llanberis, sydd yn chwech oed ar Mehefin 5, oddi wrth mam, nain, taid, Andrew, nain, Nerys Peter, Llinos, Llifon bach, Chris, Ann a'r plant, Janet. x x x

LLONGYFARCHIADAU i Brian Robert, 7 Bethesda St., ar achlysur ei benblwydd yn ddeunaw oed ar Mehefin 14, oddi wrth mam, dad a Donna.

I Jason Robert, Stryd Goodman, ar achlysur ei benblwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Mair a Melfyn ar enedigaeth eu merch fach.

YSBYTY. Dymunwn wellhad buan i'r rhai canlynol: Mrs Dilys Phillips, Coed y Glyn' Mr Lamberch, Maes Padarn; Mrs. Betty Hughes, Stryd

yr Wyddfa; Mr Gwilym Jones, Maes Padarn; Mrs M Roberts, Maes Padarn; Mrs Alwena Thomas, Rock Terrace; Mrs Katie Lewis, Dôl Eilian; Mrs A B Jones, Capel Coch Rd, a Mrs M Parry, Capel Coch Rd.

CYDYMDEIMLO. Cydymdeimlwn â Mr Owain Sharp a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam.

Cydymdeimlwn â Mrs Phyllis Jones, 60 Dôl Elidir a'r teulu yn eu profedigaeth o golli brawd yn sydyn.

BEDYDD. Dydd Sul, Mai 7, bedyddiwyd Luke, mab bach Alwyn a Jennifer Hughes, Water St, yn Eglwys St. Padarn.

Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Melanie Sellars, 13 Dôl Elidir sydd yn ymuno â'r fyddin (Women's Royal Army Corps.) yn Guildford ar Mehefin 14.

Llaongyfarchiadau i Mr a Mrs Goronwy Lewis, Stryd Ceunant, ar fod yn nain a thaid am y tro cyntaf.

YMDDEOL. Dymunwn yn dda i Mr a Mrs Dennis Jones a Gwyneth sydd wedi symud i fyw i'w cartref newydd. Mae Mr Jones newydd ymddeol fel Postfeistr. Dymunwn yn dda i Raymond ei fab sydd wedi ymgymeryd â'r gwaith. Pob lwc a hapusrwydd i chi i gyd.

CARTREF NEWYDD. Dymunwn bob lwc a hapusrwydd i'r rhai canlynol sydd wedi symud i'w cartrefi newydd: Rhingyll Meirion a Dina Owen au mab Ben; Eric a Meirwen Bayliss a'u plant Nicola, Julie a Jason; hefyd mam Meirwen, sef Mrs Clara Roberts, ac hefyd y Cwnstabl Gareth a Dilys a'u plant.

YSGOL FEITHRIN. Dymuna Catherine Williams ar ran yr Ysgol Feithrin ddiolch i bawb a gyfranodd at y Bingo a gynhaliwyd yng Ngwesty Dolbadarn. Gwnaed elw o dros £200.

Dymuna Mrs Williams hefyd ddiolch i Norman a Gerald yn yr Orsaf Ddan am dywys plant bach yr Ysgol Feithrin o gwmpas yr Injan Ddan. Cawsant amser difyr iawn.

Y PLANTOS GYDA FFRINDIAU SAM TÂN



'RHAID DATRYS ARGYFWNG Y TAI' MEDDAI'R CERDDWYR
Mae llais newydd wedi ymuno yn yr ymgyrch i amddiffyn bywyd a diwylliant gwledig Cymru.

Yng nghyfarfod blynyddol Cyngor Cymreig Cymdeithas y Cerddwyr, a gynhaliwyd yn Rhaeadr yn ddiweddar, pasiwyd yn unfrydol benderfyniad yn galw am i'r awdurdodau frysio i ateb problem 'y dirywiad mewn ffermydd teuluol bychain, a'r prinder tai y gall y boblogaeth gynhenid eu fforddio'. Meddai John Robinson, Cadeirydd:

'Symbyliad y penderfyniad hwn oedd dau bapur gafodd eu cyhoeddi'n ddiweddar. Mae un, papur polisi UAC ar ffermydd teuluol bychain, yn galw am fesurau arbennig i atal y dirywiad yn nifer ffermydd bychain yng Nghymru. Mae'r llall, 'Homes We Can Afford' gan Gymdeithas Cyngorau Sir (ACC), yn tynnu sylw at broblemau adnabyddus tai cefn gwlad.

'Er mai diogelu hawliau mynediad a harddwch naturiol y wlad ydi'n prif nod, credwn hefyd fod cefn gwlad Cymru yn enaid byw, y mae gan yr amgylchedd naturiol, bywyd gwyllt, ffermydd, pentrefi a phobl i gyd ran hanfodol i'w chwarae ynddo. Fel y dywedodd Meuric Rees, Cadeirydd y Comisiwn Cefn Gwlad yng Nghymru, mewn cyfarfod yng Nghaerdydd y llynedd, "Heb bobl, does dim ystyr i harddwch". Dydyn ni ddim eisiau gwel y Gymru wledig yn troi'n anialwch, neu'n amgueddfa, neu'n bardwyd ffôl o ail gartrefi.

'Felly rydym ni'n cefnogi UAC yn galw am i'r grantiau gael eu pwyso o blaid y ffermydd bychain yn hytrach nag yn eu herbyn; am i'r sustem Ardaloedd o Amgylchedd Arwyddocaol gael ei ddefnyddio'n helaethach; am fesurau i rwystro gwerthu tai ar wahan i'r tir; ac am fesurau eraill i helpu'r fferm deuluol fychan i oroesi.

'Rydym ni'n cefnogi hefyd yr ACC yn galw am fesurau i helpu pobl leol ifainc i brynu neu rentu tai; am newid y ddeddf fel y gall anghenion pobl leol am dai gael eu trin fel mater cynllunio; am fodd i rwystro pobl rhag camddefnyddio'r sustem; ac yn bennaf oll, am i'r llywodraeth gael polisi cyflawn, nad oes yr un ganddynt ar hyn o bryd.'

Mae penderfyniad y Cerddwyr yn galw ar y Swyddfa Gymreig a'r awdurdodau lleol i roi 'ystyriaeth ddwys a sympathetig' i bapurau UAC a'r ACC, 'gan ymgynghori â diddordebau hamdden a diddordebau perthnasol eraill'.

Mae Cymdeithas y Cerddwyr yn fudiad gwirfoddol a sefydlwyd ym 1935. Ei nod yw amddiffyn hawliau tramwy, ymgyrchu dros fynediad i dir agored, a diogelu harddwch cefn gwlad. Mae ganddi dros 145,000 o gefnogwyr, gan gynnwys 68,000 o aelodau unigol a 77,000 aelod o'i 700 o glybiau cysylltiedig. Yng Nghymru, mae 2,523 o aelodau wedi'u rhannu yn 25 o grwpiau lleol.

Fideo Newydd



SAM TÂN 2

Allan Yn Awr!

6 Pennod newydd
sbon o anturiaethau
dyn tân enwoca Cymru.

DIM OND £9.99.

Bathodyn am ddim hefo pob caset.
Mynnwch eich copi yn awr. Yn eich siop leol.

SAIN · LLANDWROG · CAERNARFON · GWYNEDD

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

DEINIOLLEN

GOHEBYDD: W. O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

PLAID CYMRU. Clwb 100 Mis Ebrill: £10 — Mrs Megan Morris, Minffordd, Dinorwig; £8.50 — Mr Philip Jones, 1 Ty'r Faenol, Clwt y Bont.

MERCHED Y WAWR. Pleser o'r mwyaf oedd cael croesawu Mr H Jones, Deiniolen i rhoi sgwrs i ni ar wahanol de. Diolchwyd iddo gan Mrs Megan Morris, roedd hithau wedi gwneud pennill. Merched y te oedd Mrs Margaret Roberts a Mrs Margaret Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs J G Hughes. Ein cydymdeimlad â Wyn a Sion Wyn a'r teuly i gyd yn eu profedigaeth o golli y ddiweddar Mrs Dilys Hughes, un o aelodau cyntaf y gangen. Mehefin 19 bydd Cyfarfod Blynnyddol i orffen y tymor.

CLWB ELIDIR. Ar y 18 Ebrill cafwyd arwerthian Moes a Phryn llewyrchus iawn yn y Clwb uchod a diolch i bawb am eu haelioni, yn enwedig i deulu y diweddar chwâr, Mrs Lilian Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Eirlys Ll. Jones, Mrs J. Eirlys Williams, Mrs. Jennie Cashman a Mrs. Aileen M. Jones. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs Jennie Cashman, gan Mrs Edna Coles. Enillwyd tair raffl arall trwy garedigrwydd Mrs Joyce Morris yn ôl ei harfer, gan Mrs Jennie Cashman, Mrs Edna Coles a Miss Eileen Williams. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Eirlys Ll. Jones, ac hefyd benblwydd hapus i Mrs Nell Griffiths. Croesawyd aelod newydd i'r Clwb, sef Mrs. Catherine M. Williams.

Bu cyfarfod o Glwb Elidir hefyd ar yr 2 o Fai, pryd y treuliwyd prynhawn difyr gyda Mrs Jennie E. Williams yn ein dioddori. Rhoddwyd y te gan Mrs Annie M Morris, Mrs Idwen Thomas, Mrs Nell Griffiths, a Mrs Grace Williams. Diolchwyd iddynt gan Mrs Jane Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Annie H Morris a'r enillydd oedd Miss Eileen Williams. Cydymdeimlwyd â Mrs Betty Hughes ar golli merch-ying-nghyfraith; Mrs O R Williams ar golli chwâr; ac hefyd â theulu y diweddar Mr Davies (Buses) Bethesda a fu mor garedig trug at y Clwb tra yn gysylltiedig â'r ardal. Anfonwyd dymuniadau gorau am wellad buan i Mrs Mary Hughes a Mrs Catherin M

Williams. Croesawyd aelod newydd, sef Mrs Pat Evans.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar 8 Mai o dan arweiniad Mrs Eirlys Lloyd Jones y llythyr misol a chroesawodd y wraig wâdd, sef Mrs E. Crocombe y VCO. Cawsom noson ddifyr gan Mrs Cnocamle yn trafod y Cyfarfod Cyffredinol sydd i'w gynnal yn Llundain ym mis Mehefin. Diolchwyd i Mrs Crocombe gan Mrs Eirlys Hugh Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs J. Eirlys Williams a Mrs Beti Wyn Davies. Enillwyd y raffl gan Miss Eileen Williams. Croesawyd Mrs Glenys Williams, y trysorydd, yn ôl ar ôl colli ei gwr. Llongyfarchwyd Mrs Mairwen Williams am fod yn nain am y tro cyntaf. Etholwyd Mrs Elizabeth Taster ar bwyllgor y Ganolfan. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 5 a disgwylir Mrs M E Jones, Cricieth atom.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd y cyfarfod misol nos Fawrth, Mai 2, yn neuadd yr Eglwys. Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi a darlenniad o'r Beibl gan y Parch Tegid Roberts. Y gwr gwadd oedd Mr Hugh Jones, Rhes y Faenol. Cafwyd sgwrs ddifyr ganddo ar 'Hanes Te'. Diolchwyd i Mr Jones gan y Parch Tegid Roberts a Mrs Laura Pritchard. Rhoddwyd y te gan Mrs Betty Roberts a Mrs Betty Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Phyllis Jones. Bydd noson goffi yn cael ei chynnal nos Wener, Mehefin 9 yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7 o'r gloch a'r elw tuag at gronfa cangen Undeb y Mamau Llandinorwig.

Bu pedwar o gefnogwyr Undeb y Mamau yn cerdded ar daith noddedig, nos Wener, 19 Mai, ar hyd rhai o lwybrau cyhoeddus ardal Deiniolen a'r Fachwen, er mwyn codi arian tuag at gronfa genhadol y Gangen.

YR YSGOL FEITHRIN. Cafwyd prawf pellach o haelioni trigolion Deiniolen a'r cylch yn y gefnogaeth i daith gerdded y plant ar Ebrill 20. Cwblhaodd criw mawr o blant a'r cyfan ohonynt dan bump oed, y daith o amgylch y pentref, a hynny'n siriol a hynod ddi-gwyn! Diolch i'r mamau a gyd-gerddodd â hwy — ambell un ar stumog

wag!! Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd at y £450 a gasglwyd.

Ar ddiwedd blwyddyn fel hyn, hoffai pwyllgor yr Ysgol Feithrin fynegi eu gwerthfawrogiad i'r holl gyfeillion a fu mor barod eu cymwynas a'u cefnogaeth i'r amrywiol weithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Eisoos casglwyd bron i £1,500 tuag at yr atgyweirio, a derbyniwyd grant o £1,000 arall oddi wrth Pwyllgor Tywysog Cymru. Diolch o galon i bawb.

ARFER Y GYMRAEG. Yn dilyn yr erthygl a ymddangosodd ar dudalen flaen Eco Mis Tachwedd y llynedd ynglyn â phenodiad Ymwelydd lechyd di-Gymraeg i'r ardal hon, hoffem hysbysu'r darlennwyr fod y swyddog dan sylw, bellach, wedi mynychu cwrs dysgu Cymraeg llawn amser am fis. Deellir ei bod eisoos yn teimlo'n ddigon hyderus i gyfathrebu â phlant ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg, ond fod angen llawer o ymarfer arni. Hoffem annog darlennwyr yr Eco i ddangos pob cefnogaeth i'w hymdrechio, a hynny mewn ffordd gadarnhaol, trwy fynnu siarad Cymraeg â hi ar bob achlysur fel y gall hithau fanteisio ar bob cyfle i ystywyo'i sgwrs. Wedi'r cyfan, fel gwyr pawb, yr unig ffordd i feistroli iaith yw trwy ei siarad yn gyson.

Hyderwn y bydd i'r Awdurdod lechyd barhau yn eu hymdrech i sicrhau chwarae teg i'n plant trwy ryddhau eu gweithwyr, yn ôl y galw, i fynychu cyrsiau pellach i loywi eu Cymraeg fel eu bod, yn y pen draw, yn gwbl rugl.

DIOLCH. Dymuna Mrs N. Williams, 29 Rhydfadog, ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu a'i chyfeillion am eu caredigrwydd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref, hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad â dangoswyd iddi ar ôl colli ei hannwyl chwaer.

DIOLCH. Dymuna Mr a Mrs Emyr Pritchard, 1 Ffordd Deiniol, ddiolch i bawb a fu mor garedig wrthynt ar achlysur hapus dathlu eu priodas aur ar Ebrill 10. Diolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion, rhoddion, blodau a chardiau a dderbyniasant.

CANOLFAN GYMDEITHASOL: Er mai nifer fechan oedd yn bresennol yn y Cyfarfod Blynnyddol a gynhaliwyd ar y 10fed o Fai fe gafwyd cyfarfod buddiol. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith ac fe dderbyniwyd y fantolen ariannol fel un cywir. Adroddwyd bod cryn ddefnydd yn cael ei wneud o'r Ganolfan a bod hynny yn dda i'w weld. Hefyd nodwyd bod angen cario allan gwaith atgyweirio ar yr adeilad ac y dyliid tynnu sylw y Cyngor Sir at hyn. Etholwyd y canlynol i weithredu ar bwyllgor y Ganolfan am eleni: Mr Colin Worth (Clwb Snwcer); Mrs Jane Jones (Clwb Elidir); Mr R. Williams (Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi); Mr Donald Jones (Cyngor Eglwys Cylch Deiniolen); Mrs Betty Wyn Davies (Cymdeithas Lenyddol); Mrs B. Williams (Merched y Wawr).

Mewn cyfarfod o Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan, a gynhaliwyd ar 23 Mai, etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn yn diwedd 30 Tachwedd, 1989: Donald Jones, Cadeirydd; Buddug Jones, Trysorydd; Robert Williams, Ysgrifennydd Cyffredinol.

Talwyd diolch diffuant i Glyn Tomos, Cyn-Gadeirydd, am ei gyfraniad arbennig at redeg y Ganolfan yn ystod 1988/89, ac i eraill o'i gydaelodau, am eu cefnogaeth a'u dycnwch yn dwyn y maen i'r wal mewn cyfnod anodd.

Ymysg nifer o faterion eraill, penderfynwyd atgoffa defnyddwyr Y Ganolfan, y bydd rhaid talu fel am ei defnyddio os na chyflwynir o leiaf dri diau o rybudd o'r bwriad i ganslo'r trefniant.



Mr a Mrs Emyr Pritchard yn dathlu eu priodas aur.

Emyr Jones

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**
Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau
**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513**



W.H. JONES

TRYDANWR
**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS**
**FFÔN:
LLANBERIS 871470**
Contractau
Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O. YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol



PRITCHARD
**43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112**

Cymeradwyr gan yr Adran
Drafnidiaeth

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH
**WELDING &
FABRICATING**
**32 GLANFFYNNON
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 5394

MRS DILYS MAI HUGHES

Bu farw Mrs Dilys Mai Hughes, Ty'n y Weirglodd, Deiniolen yn dawel yn ei chartref, ar ôl salwch hir, ddydd Iau, 29 Ebrill 1989, yn 49 oed.

Un o Llanddona ydoedd yn wreiddiol, a bu'n bennaeth adran babanod Ysgol Gynradd Bwmares am dros ugain mlynedd. Cadwodd ei chysylltiad â Llanddona, trwy fod yn drysorydd eisteddfod y pentref, hyd at gyfnod ei salwch. Yn Neiniolen roedd yn gymeriad hynod o boblogaidd, adnabyddus am ei haelioni a'i llawenydd. Bu'n weithgar mewn cylchoedd crefyddol a chymdeithasol, yn Ysgol Sul Ebeneser, fel llywodraethwr Ysgol Gwaun Gynfi, ac fel swyddog gyda Merched y Wawr a Chlwb Pêl-droed ieuenctid Deiniolen.

Cynhaliwyd gwasanaeth yn Eglwys Ebeneser, Deiniolen, ar 1 Mai, dan ofal y gweinidog, Parch John Pyitchard. Cynorthwywyd ef gan Mr Gwyn Parri a'r Parch Trefor Lewis, Parch Eryl Lloyd Davies a'r Canon Elwyn Roberts. Yn ddiweddarach cynhaliwyd gwasanaeth ym mynwent Eglwys y plwyf, Llanddeiniolen.

Y cludwyr oedd Mr John Rowlands, Mr Norman Roberts, Mr Gerwyn Jones a Mr Tecwyn Hughes.

Ymhlith y galarwyr roedd Wyn (ei gwr); Siôn Wyn (ei mab); Mr a Mrs John Jones (rhieni); Eluned ac Eryl (chwiorydd); Mr a Mrs E Hughes (mam a thad-yingnghyfraith); Mrs C M Roberts, Miss K Rowlands, Mrs N Rowlands (modrybedd); Mr a Mrs John Rowlands, Mr a Mrs N Roberts, Mr a Mrs W Medine, Mr a Mrs E Jones, Mr Hugh Rowlands, Mrs Olwen Meddings, Mr a Mrs W Roberts (cefndyr); Elwen, Eirian, Wendy a Julie (nithoedd); Rob; Mr a Mrs O Jones, Mrs Eleanor Williams, Mrs Margaret Hughes, Miss Katie Hughes, Mr a Mrs G Thomas, Mr T O Hughes, Mr a Mrs W Hughes (modrybedd ac ewythredd); Mr a Mrs Tecwyn Hughes, Linda, Mrs Gerwyn Jones, Gwyneth a Brian, Mair, Mr a Mrs Gwilym Hughes, Miss Elizabeth Hughes, Miss Jane

Thomas (cefndyr). Yn bresennol hefyd roedd nifer fawr o berthnasau a ffrindiau sy'n rhy niferus i'w henwi.

Rhodddwyd blodau gan Wyn a Siôn Wyn; Mam a Dad; Nia, Er a Rob; Nain a Taid, Cryngae; Katie Wyn, Owie, Gerwyn, Gwyneth a Brian; Derwyn; Carys, Tecwyn a'r genod; Buddug, Gwilym a Jane; Aunty Jean, Uncle Wil, Caernarfon; Katie a Thomas Owen; Andrew, Cheryl, Rachel a Mark; Aunty Maggie ac Elizabeth, Llanberis; Gwilym, Elizabeth, David, Peter a Sera, Cei Connah; Mair a Gwyndaf, Llanrug; Gwion a Rhodri, Llanrug; Seindorf a Seindorf Ieuenctid, Deiniolen.

Cynrychiolwyd Eglwys Ebeneser gan Mr Donald Jones a Mr Ernest Jones. Yr organydd oedd Mr John B Jones. Yn cynorthwyo yn y festri roedd Mrs Nan Jones, Mrs Valmai Williams, Mrs Margaret Roberts, Mrs Margaret Jones a Mrs Mair Jones.

Dymuna'r teulu ddiolch yn fawr am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ac am y rhoddion hael, a fydd yn cael eu cyflwyno i Uned Macmillan, Caernarfon a Chanolfan Iechyd Deiniolen, er cof am Dilys.

DILYSRWYDD DILYS

Teyrnged i Mrs Dilys Mai Hughes Ymhle, tybed yr oeddech chi brynhawn Llun, Mai 1, eleni? Gwyl y Banc ydoedd. Tyrrodd llawer i'r traethau ac i'r wlad i fwynhau ychydig oriau o hamdden. Aeth tyrfa arall i Lynllifon i Wyl Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 1990.

Nid oeddwn i yn rhan o'r tyrfaoedd hynny ond ymunais gyda thorf o ffrindiau oedd wedi ymgasglu yng nghapel Ebeneser, Deiniolen, i dalu teyrnged i ferch arbennig iawn, Mrs Dilys Mai Hughes, neu Dilys Ty'n y Weirglodd i drigolion Deiniolen. Ers talwm oedfaon pregethu oedd y cyfrwng i lenwi capel tra heddiw cyngerdd neu angladd rhywun tebyg i Dilys sy'n tynnu'r lluoedd i'r cysegr.

Beth sydd mewn enw? Diolch i'r Parch John Pritchard am

gyfeirio at Dilys fel un a fu byw yn deilwng o'r enw a roddwyd arni gan ei rhieni. Heb os, yr oedd dilysrwydd Dilys yn amlwg iawn.

Un o ferched Môn ydoedd Dilys ond wedi ymbriodi â Wyn, mab Cryngae, gadawodd y gwastadeddau ac ymsefydlu yn Neiniolen ar lethr yr Elidir. Ychydig a feddyli-ai, mae'n siwr, wrth iddi, pan yn blentyn, edrych i gyfeiriad Eryri y byddai'n treulio ei bywyd priodasol o fewn golwg i'r Wyddfa gadarn.

Roedd ei dilysrwydd yn amlwg ar yr aelwyd. Pwy fedar anghofio'r croeso a roddai i unrhyw un a âi yno? Croeso gwresog, boneddigaidd, ie croeso dilys. Roedd yn ddilys fel priod a mam ac y mae geiriau Llyfr Diarhebion pennod 31 yn siwr o fod yn berthnasol wrth i ni gofio amdani. "Y mae calon ei gwr yn ymddiried ynddi . . . y mae'n gwneud daioni iddo yn hytrach na cholled, a hynny ar hyd ei hoes." (adn. 11 a 12). "Y mae ei phlant yn tyfu ac yn ei bendithio," (adn. 28). "Y mae'n siarad yn ddoeth, a cheir cyfarwyddyd caredig ar ei thafod," (adn. 26).

Bu'n athrawes am nifer o flynyddoedd ac yr wyf yn siwr mai tystiolaeth y rhai a ddaeth i gyffyrddiad â hi drwy'r ysgol yw iddi fod yn driw i'w henw, wrth iddi addysgu to ar ôl to o blant bach. Galwedigaeth oedd dysgu i Dilys ac nid 'gwaith', ac y mae gwahaniaeth onid oes? Ni allaf gredu bod yr un plentyn nad gadawyd stamp Dilys arno a thra bydd y plant hynny byw, bydd Dilys byw.

Cafod gystudd blin ond wynebodd y cyfan gyda rhyw ddewrder a thangnefedd gogoneddus. Cyfrinach ei sirioldeb yn y storm oedd dilysrwydd ei chrefydd a'i ffydd yn Iesu Grist. Tonic ydoedd mynd i'w gweld hyd yn oed yn y dyddiau olaf o'i hoes ddaearol. Fel y dywedodd ei Gweinidog ddydd ei hangladd, Dilys oedd yn gweinidogaethu i'r ymwelydd ac nid fel arall. Gweinidogaethodd i'r rhai oedd gyda hi yn yr ysbyty.

Yr hyn a ychwanegodd at y chwerwder oedd ei hoedran; ni chafodd gyrraedd oed yr addewid, yn wir goroeswyd hi gan ei rhieni.

Ond rwy'n siwr iddi gyflawni mwy yn yr hanner canrif a gafodd na llawer un a fu byw dros oed yr addewid. Nid hyd y daith sy'n bwysig yn y diwedd ond ansawdd y bywyd. Bu i Dilys ddryllio'r blwch enaint a roddwyd iddi a thywalltodd ei gynnwys ar draed ei Gwardwr. Fel yn hanes y wraig honno ym Methania "adroddir yr hyn a wnaeth Dilys, er cof amdani." Gofynnais i'r Parch Dafydd Owen, Hen Golwyn, lunio englyn er cof am Dilys:

*Un teilwng o'r enw 'Dilys' -
rhoes ei dawn*

Dros y da'n ddibetrus,

I ddau hoff, mor brudd y wys,

A'n hiraeth fyth a erys.

Boed i'r 'ddau hoff', Wyn a Sion Wyn, brofi bod Iesu'n pceiddio'r dyfroedd chwerw eu blas. Boed i'r rhieni, ym Môn a Deiniolen, a'r ddwy chwaer, Eluned ac Eryl, gael y nerth i ddiolch am y faint a gawsant o weini ar un oedd yn deilwng o'r enw Dilys. Ynghanol yr hiraeth a'r siom diolchwn oll, yn hanes Dilys, "ni bydd marwolaeth mwyach, na galar na llefain na phoen".

Y Parch Trefor Lewis
Hen Golwyn

DYDDIADUR Y CARNIFAL

Mehefin 29: RAS HWYL (mwy o fanylion yn fuan).

Gorffennaf 2: CYMANFA GANU, Ebeneser (yr elw tuag at ail-doi y Capel).

3: PELDROED 5 bob ochr.

4: DISCO (yn yr awyr agored os bydd y tywydd yn caniatáu).

5: CORONI BRENHINES A THY-WYSOGES y Carnifal mewn cyngerdd gan blant ysgol Gwaun Gynfi.

6: MABOLGAMPAU

7: BINGO i'r plant yn Ystafell y Seindorf.

8: Y CARNIFAL.

**Apêl Urdd Dyffryn Nantlle
a'r Cylch**

GYRFA CHWIST

**nos Fercher, Mehefin 21
yn Neuadd Ysgol Gwaun
Gynfi am 7 o'r gloch.**

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

**LONDON HOUSE
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

**TACSI
BETHEL**

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

**GWILYM H.
WILLIAMS**

**BRYN DAIRY
2 BRYNHYFRYD**

BETHEL

Ffôn

Port Dinorwig 670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Ymddangosodd yr ysgrif ganlynol yn Yr Herald Cymraeg, 24 Awst 1976 o dan y teitl 'Y Ty a'r Teulu' gan Mari Lewis.

Gwasg y Llyfrau Cain

"Arddangosfa Gwasg Gregynog" yn Oriel Gregynog, Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth fydd y testun heddiw. Agorwyd hi ychydig dros wythnos yn ôl gan Dr R Brinley Jones, Warden Coleg Llanyddydri a chyn-gyfarwyddwr Gwasg Prifysgol Cymru. Bydd yr arddangosfa yn agored am wythnosau.

Daeth nifer dda o 'Gyfeillion y Llyfrgell' i'r cyfarfod. Dr Thomas Parry oedd y Cadeirydd. Hefyd ar y llwyfan yr oedd Mr David Jenkins (Y Llyfrgellydd) a'r Athro Idris Foster (Trysorydd y Llyfrgell a Chadeirydd Cymdeithas Cyfeillion y Llyfrgell). Yr oedd y rhai hyn hefyd yn y gynulleidfa: Lady Edwards (Is-Gadeirydd y Cyfeillion); Dr Emyr Wyn Jones; Dr Marcia K Grant, Llanbedrog; Yr Athro Jac L Williams; Dr Mary Clement; Mrs Auriol Watkin; Dr E D Jones (Cynlyfrgellydd); Lady Parry Williams; Y Canon Eric Ramage a Mrs Helen Ramage a Mr Arthur M Sansom Caerdydd, ac eraill.

Dr Thomas Parry

Yn ei anerkriad ar y cychwyn dywedodd Dr Thomas Parry fel hyn:

"Arddangosfa o gynnyrch Gwasg Gregynog sydd yma, ac y mae'n addas iawn fod arddangosfa o lyfrau yn cael ei llwyfannu mewn llyfrgell. Gwnaeth Gwasg Gregynog waith godidog trwy gynhyrchu llyfrau sy'n wyrth o brydferthwch a cheinder, ac yng nghanol creulondeb a thrais y dyddiau hyn y mae'n iechyd i galon dyn weld bod y meddwl dynol yn gallu cynhyrchu pethau hardd.

Yr hyn a'i gwnaeth yn bosibl oedd nawddogaeth y ddwy chwaer gyfoethog, Gwendolen a Margaret Davies. Prin y ceir neb o gyfoethogion Cymru heddiw sy'n barod i wario'u harian ar gynhyrchion fel hyn, ond yn ffodus y mae nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru a grant y llywodraeth ar gael."

Wrth agor yr arddangosfa, dywedodd Dr R Brinley Jones mai Gwasg Gregynog oedd y wasg breifat enwocaf yn y byd a grewyd ar dir Cymru. Pwysleisiodd Dr Jones gyfraniad gwerthfawr y Wasg hon ac enwodd y rhai a fu wrthi gyda disgleirdeb yn cynllunio, yn

argraffu, ac yn rhwymo llyfrau. "Nid mater o gost yn unig ydyw safon ond mater o athrylith a gallu mawr," meddai.

Rhoddodd deyrnged hael i Miss Gwen a Miss Margaret Davies, perchnogion y Wasg ac i'r diweddar Dr Thomas Jones "yr athrylith y tu ôl i'r cyfan".

Cyfeiriodd hefyd at wasanaeth y wraig amryddawn honno, Mrs Dora Herbert Jones. Aeth yr arian a ddaeth i feddiant teulu Davies drwy chwys glofeydd y De i bwrpas gwasanaethu Cymru a'r byd.

Wedi'r egwyl a chael te cafwyd cyfarfod blynyddol Cyfeillion y Llyfrgell. Llywyddwyd gan yr Athro Idris Foster. Cafwyd adroddiad gan Ysgrifennydd y Cyfeillion, sef Mr D B Lloyd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Os hoffech ymuno â'r gymdeithas anfonwch ato ef am y manylion. Hanner can ceiniog newydd yw isafswm y tâl aelodaeth am flwyddyn.

Dwy Wraig

Wrth grwydro o gwmpas yr arddangosfa tarewais yn ddamweinïol ar ddwy wraig, a darganfum fod ganddynt lawer a oedd yn gyffredin. Hannai'r ddwy o "Sir Gâr" ac o gylch Llanelli, a buont yn fyfyrwyr yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth. Y maent yn awr yn ddarlithwyr yn adran addysg y coleg hwn. Dr Mary Clement oedd un a Mrs Auriol Watkin y llall.

Dr Clement yw'r arbenigwr ar hanes yr S.P.C.K. (Society for the Promotion of Christian Knowledge) a'r Eglwys yng Nghymru yn y ddeunawfed ganrif. Y mae Dr Clement wedi cyhoeddi llyfrau safonol ar y pwnc. Economydd oedd Mrs Watkin yn wreiddiol, ond aeth ymlaen i astudio problemau cymdeithasol, yn enwedig problemau plant tramgwyddus ac anodd. Hi yw Cadeirydd Llys Plant Aberystwyth.

Er nad apwyntwyd yr un o'r ddwy i ddarlithio trwy gyfrwng y

Gymraeg, gwnant hynny o'u gwirfodd am fod mwy a mwy o alw am hyn gan fyfyrwyr, a gellir eistedd holl bapurau Dr Clement a Mrs Watkin yn Gymraeg. Gofynnais am enghraifft neu ddwy. Dyma'r hanes.

O Nerth i Nerth

Dechreuwyd seminar (dosbarth) trwy gyfrwng y Gymraeg i ddarpar athrawon pan oedd y diweddar Athro Idwal Jones yn bennaeth yr Adran Addysg. Eglurwyd i mi nad seminarau i'r Cymry Cymraeg yn unig oeddynt ond i'r rhai nad oeddynt yn rhugl yn yr iaith, ac wedi graddio mewn amrywiol destunau.

Penderfynwyd arbrofi gyda'r grwp am dymor, ond (a thorri stori hir yn fyr) cymaint y llwyd-

diant nes i'r adran ychwanegu at nifer y seminarau hyn. Maent wedi mynd o nerth i nerth.

I gymryd un testun yn y cwrs gradd, dechreuwyd cwrs Cymraeg Dr Clement ar Hanes Addysg gydag un neu ddau o fyfyrwyr, ond erbyn y llynedd yr oedd rhyw ddeugain o fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf yn dilyn y cwrs hwn.

Ers blynyddoedd bellach y mae'r cwrs yma wedi ymsefydlu hyd at lefel Anrhydedd a hefyd i lefel M.Ed. Diddorol nodi fod pob myfyriwr M.Ed eleni a ddewisodd ddarllen hanes addysg wedi gofyn am gael gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mab yw gwr Mrs Watkin i'r diweddar Athro Morgan Watkin, Caerdydd, a nai i Gwili.

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

Cafwyd diwedd glo addas i'r cyfarfodydd ar nos Fercher, Mai 17, pan ddangoswyd fideo ar hen chwarel Dinorwig trwy garedigrwydd y BCCT.

Yn y cyfarfod blynyddol ar y terfyn darllenwyd llythyr oddi wrth Ffederasiwn Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon yn rhoi amcanion a chyfansoddiad y Ffederasiwn ac yn gwahodd y Gymdeithas i ymaelodi. Teimlad yr helyw o'r aelodau a oedd yn bresennol oedd y dylasid gadael i'r pwyllgor ystyried hyn a dod i benderfyniad.

Etholwyd y canlynol yn aelodau o'r pwyllgor: Mrs Megan Morris, Deiniolen; Mr R. H. Parry, Cwmyglo; Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr; Mr D. Whiteside Thomas, Llanrug; Mrs

Maureen Lennon, Llanberis; Mrs Ann Evans, Penisarwaun; Mr Arwel Jones, Penisarwaun; Mr. John Roberts, Llanrug. Cadeirydd: Mrs Mair Reed, Bethel; Trysorydd: Mr Gwynfor Roberts, Llanberis; Ysgrifennydd i'w ethol.

Bu drafodaeth ar yr addasrwydd o gael y cyfarfodydd i gyd mewn un ganolfan er fod yr amgueddfa yn cynnig cyfleusterau ardderchog. Y teimlad oedd fod y Gymdeithas wei colli rhan o'i phwrpas trwy beidio a chrwydro o bentref i bentref, ac y dylid cael mwy o weithgareddau gan y canghennau lleol.

Penderfynwyd argymhell y pwyllgor i ystyried newid yn ôl i'r hen drefn i geisio ennyn my o ddiddordeb yn y Gymdeithas.

CYMDEITHAS HANES BRO 'ECO'R WYDDFA' Adroddiad Ariannol Ebrill 1988 - Mawrth 1989

DERBYNIADAU

Yn y Banc 31. 3.1988	395.86
Tâl Aelodaeth	97.00
Rhodd	10.00

Oriel Eryri - darlithfa (9)	135.00
Darlithwyr	90.00
Costau teithio darlithwyr	15.00
Printio cardiau aelodaeth	28.75
Poster Arddangosfa	
Hen Luniau	22.43
Fflim - tynnu lluniau arddangosfa	22.43
Capel Nant Padarn	10.00
Costau'r Ysgrifennydd	5.00

	502.86
Yn y Banc	328.61
	174.25

	502.86
	502.86

TALIADAU

CABS LLANRUG



C'FON 5951

Prisiau cystadleuol.
Gwaith contract
pell ac agos

Gwasanaeth danfon parseli bychain
a dogfennau hefo motobeic

Wheels Despatch

Yr un diwrnod rhywle'n y wlad.

Ffoniwch:

LLANGOED
(0248) 78787

neu LLANBERIS
(0286) 870488

Dyddiadur y Mis

YMDDIHEURIAD

Roedd Trefnydd y Dyddiadur ar wyllau yn ystod amser 'cofnodi' y mis hwn. Dim ond digwyddiadau y rhoddwyd digon o rybudd ymlaen llaw amdanynt sydd wedi eu cynnwys.

MEHEFIN

2. Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00.

5. Llun. Yr Aard: Yr Ysgolion yn agor.

6. Mawrth. Deiniolen: Undeb y Mamau, 7.00. Llanberis:

PADARN — Gwrthwynebu Glyn Rhonwy, yn Angorfa am 7.00.

8. Iau. Glynllifon: Sefydliad y Merched Gwynedd. 'Bwyd a Ffermio Prydain'. Dydd agored o

1.00 tan 9.00 o'r gloch.

9. Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00. Llanberis: Te yr Henoed.

13. Mawrth. Llanrug: Merched y Wawr. Taith Ddirgel.

15. Iau. Etholiadau Senedd Ewrop. Sioe Ffasiynau yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, 8.00.

16. Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00.

20. Mawrth. Llanrug: Apêl yr Urdd. Cwestiynau ar gyfer Helfa Drysor ar Draed i'w cael o heddiw ymlaen, 50c. y copi.

21. Mercher. Llanrug: Plaid Cymru. Cyfarfod Blyneddol yn yr Ysgol Gynradd, 7.30.

23. Gwener. Llanberis: Te yr

Henoed. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band.

OSMOND SHAW DEINIOLLEN

Gwerthu
a Thrwsio
Teledu Lliw Newydd
ac Fel Newydd
GWASANAETH
FFON 24AWR
LLANBERIS 870545

PYSGOTA

Adroddiad H. P. Hughes

Yn ystod y dair wythnos ddiwethaf fe ddisgynnodd yr afonydd i'w lefel isaf ers yr haf poeth yn '76. Prin iawn felly fu'r achlysuron pan y gallai rhywun fynd a'i wialen at y dwr. Gwahanol iawn oedd y stori ar y llynnoedd gyda'r pedwar sydd o dan reolaeth y Gymdeithas 'sgota'n eithriadol o dda. Ar ddydd Sul y 21ain o Fai fe gynhaliwyd cystadleuaeth Cwellyn ac fe'i henillwyd gan Oscar Evans o Fethel. Pythefnos yn gynt, sef Sadwrn 6ed, gwelwyd Edwin Lewis o Benygroes yn fuddugol ar Padarn gyda brithyll braf o bwys a phedair owns.

Gobeithiwn orffen y gwaith yn fuan o roi cerrig mawr ar waelod y Llynfny, i geisio gwneud y pysgota yn fwy amrywiol yno, yn ogystal a cheisio sefydlu tipyn ar y pyllau isaf, sydd yn achosi problemau gyda baw a cherrig man yn eu llenwi.

Ar y cyntaf o Orffennaf fe agorir rhannau o'r afonydd, sef o Bont Saint ar y Seiont a Phont y Cim ar y Llynfny i bysgota Sewin. Gobeithio erbyn hynny y bydd rhai ohonynt wedi dechrau trwyno eu ffordd i'r dwr croyw, er mor isel yw hwnnw.

Clywais fod rhai aelodau yn dal i anwybyddu rheolau llyn Padarn. Cofiwch ei bod yn erbyn cyfansoddiad y Gymdeithas i unrhyw aelod werthu Brithyll o gwbwl.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O
WELAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC — ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

EMYR LL. PARRY


M.S.S.CH., M.B.CH.A.
CHIROPODIST
GWASANAETH
CARTREF
57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn: (0286) 5754
(Gyda'r nos)



EICH DEWIS CHI
Mehefin 15

DAFYDD ELIS THOMAS



LLAIS I GYMRU
YN EWROP

Cyhoeddwyd gan Eifed Roberts, Bryn Meurig, Y Llan, Dolgellau

CHWARAEON

DARANS 1890 – 1990 APÊL AM WYBODAETH

Bydd un o glybiau mwyaf adnabyddus a llwyddiannus Gogledd Cymru yn dathlu canmlwyddiant ei fodolaeth y flwyddyn nesaf. Llanbêr, Y Black and Amber, Y Darans, Y Teigars, Locomotive – galwch nhw beth bynnag fynoch chi, ei blwydyn hwy fydd 1990.

Yn un o rifynnau cynnar Eco'r Wyddfa, ac ar y dudalen hon yr ymddangosodd y cyfeiriad cyntaf at 1890 fel blwyddyn cychwyn pêldroed yn Llanberis. Y diweddar Barchedig Herbert Thomas, Llanor, un o gefnogwyr selocaf y clwb, ddaeth i'r casgliad yma ar ôl trafod â'i hen gyfaill John Roberts. Roedd yn fwrriad gan Herbert Thomas ar y pryd i ysgrifennu rhyw fraslun o gefndir y Clwb. Nododd yn ei erthygl fod John Roberts wedi olrhain y cychwyn i 1890 gan mai hon oedd blwyddyn dyfodiad Dr. R. H. Mills Roberts, golgeidwad enwog Preston North End a Chymru i Lanberis. Roedd gofalaeth Ysbyty Chwarel Dinorwig yn un o'i ddyletswyddau. Manteisiodd yr ardalwyr ar ei ddawn a'i brofiad broffesiynol o'r gêm. Ar ôl cyfarfod yn siop R E Jones y teiliwr fe godwyd wyth tîm yn y pentref i chwarae mewn cystadleuthau i godi arian tuaga at Gronfa'r Nyrs ac achosion tebyg. Mae'n debyg fod cicio pêl yn cymryd lle cyn 1890 yn Llanberis — ond heb drefn yn y byd.

Fy ngorchwyl i fel cefnogwr a chyn chwaraewr yw casglu ffeithiau gwasgareddig a'u cofnodi, mor drefnus ag sydd modd. Y gobaith yw cyhoeddi llyfr ar hanes y clwb y flwyddyn nesaf. Sylweddolaf ei bod yn dasg enfawr gan fod ffeithiau o'r fath yn brin. Serch hynny mae gennyf gynnrych eithriadol o ddiffr yn fy meddiant yn bennaf trwy gofnodion fy niweddar gyfaill Herbert Thomas a John Roberts. Dylwn nodi yma i mi gael noson hynod ddiddorol yng nghwmni Mr John Roberts yn ddiweddar yn olrhain llawer o'r hanes. Derbyniais doreth o nodiadau ganddo ymhenn y mis. Ond mae angen mwy i gynhyrchu llyfr — ac felly galwaf amoch chi bawb o ddarlennwyr yr Eco sydd ag unrhyw gofnod pwyllgor, erthygl papur newydd, llun neu atgof am rai o dimau Llanberis i gysylltu â mi os gwelwch yn dda. Petai ond sylw neu gofnod byr — cysylltwch. Byddaf yn fodlon eich cyfarfod yn rhywle i gofnodi eich sylwadau neu atgofion. Mae'r clwb yn haeddu'r gorau — gyda'ch cymorth chi bydd hyn yn bosibl.

'Gellid yn hawdd ysgrifennu llyf am hyn,' meddai John Roberts wrth Herbert Thomas, 'ond i gylch bychan iawn y buasai'n apelio gwaetha'r modd.' Roedd Herbert Thomas yn cydweld â'r rhan gyntaf o'r gosodiad ond yn amau'r ail. Dadleuai y byddai yn apelio at gynulleidfa eang. Byddaf yn cyflwyno'r llyf er côf am y Parchedig Herbert Thomas, i John Roberts am olrhain yr hanes ac i'r dyrfa fawr o wirfoddolwyr a fu wrthi ar hyd y blynyddoedd yn sicrhau fod peldroed yn rhan anhepgor o'r gymdeithas yn Llanberis.

Cofiwch gysylltu â mi — Arwel Jones, Pant Hywel, Penisarwaun. Ffôn: Llanberis 871274.

RHEDEG MYNYDD

Mae'r tymor wedi ail-ddechrau o ddiffrif, a chynhaliwyd amryw o rasus yn ystod y mis diwethaf, gyda rhedwyr lleol yn cyrraedd y brig.

Yn Ras Mynydd Mawr, torrwyd y record gan Gwynfor Owen o Glwb Eryri a Llanrug, wrth ddod i mewn yn gyntaf, a Paul Grant yn drydydd agos iddo. Yn yr un ras, daeth Dafydd Thomas o Lanrug yn ail yn yr adran dros 40 oed. Yn yr adran ieuenctid, Colin Jones a'i chwaer Caroline, o Bontrug oedd buddugwyr y rasus i fechgyn a genethod dan 16 oed.

Chwalwyd record Moel Eilio gan Colin Donnelly (sydd ar fin symud i'fwy i'r fro). Dyma'r tro cyntaf erioed i'r ras gael ei rhedeg mewn llai nag awr. Mae'n werth cofnodi ei amseroedd yn ystod y ras:

o Lwyn Celyn, Llanberis i gopa Moel Eilio – 25 munud

o gopa Moel Eilio ar hyd y grib i gopa Moel Cyngorion – 20 munud

o gopa Moel Cyngorion i lawr Bwlch Maesgwm i Lwyn Celyn – 13 munud.

Daeth Gwynfor Owen, Llanrug, yn 5ed yn y ras, a hynny mewn amser a fyddai wedi ennill rai blynyddoedd yn ôl. Pedewerydd yn yr adran dros 40 oed oedd Dafydd Thomas o Lanrug.

Deallaf foddy ceisiadau am le i

reddeg Ras yr Wyddfa yn dylifo i mewn. Mae'n cael ei defnyddio eleni i ddewis rhedwyr gogyfer â thîm Cymru fydd yn cystadlu ym mhencampwriaethau'r byd yn Ffrainc yn ddiweddarach eleni.

Cystadleuaeth Ffotograffydd Chwaraeon Amatur y Flwyddyn yng Nghymru

Dyfernir Gwobr Ffotograffydd Chwaraeon Amatur y Flwyddyn yng Nghymru i'r ffotograffydd a fydd wedi llwyddo fwy nag unrhyw ymgeisydd arall i bortreadu hanfod digwyddiad, sefyllfa neu awrygylch mewn ffordd greadigol a chyda gallu ffotograffig eithriadol.

Gaiff yr enillydd wobwr ariannol o £250.

Cynhwysir y llun buddugol mewn Calendr Chwaraeon a gynhyrchir gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Yn ogystal, dewisir un ar ddeg o luniau eraill i'w cynnwys yn y calendr, a chaiff pob enillydd wobwr o £100.

Dewisir tua 30 o luniau hefyd ar gyfer Arddangosfa Ffotograffydd Chwaraeon Amatur y Flwyddyn yng Nghymru a gaiff ei dangos mewn mannau ledled Cymru.

Mae'r gystadleuaeth yn cael ei threfnu gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Am fwy o fanylion, a ffurflen gystadlu, anfonwch i Ganolfan Chwaraeon Cenedlaethol Cymru, Gerddi Sophia, Caerdydd, CF1 9SW.

PELDROED Y GYNGHRAIR

Byddai'r mwyafrif o dimau cynghrair Gwynedd yn ymfalchio pe baent wedi dod yn ail yn y tabl ac wedi cyrraedd ffeinal un cwpan — dyna fu mesur llwyddiant tim cyntaf Llanberis yn y tymor sydd newydd ddod i ben — ond dim cystal ag arfer yw dyfarniad y rhai fu'n gysylltiedig â hwy.


Colli fu eu hanes ar yr Ofal yn erbyn Llangefni yng Nghwpan y Gynghrair ar ôl chwarae amser ychwanegol mewn gêm hynod o gyffrous. Am ddod yn ail yn y gynghrair, maent yn cadw eu dwylo ar dlws George Lovett.

Ni ddaeth llwyddiant y tymor hwn i'r ail dîm nag ychwaith i Ddeiniolen, sy'n cyd-chwarae â hwy yng nghynghrair Sain.

Siomedig fu'r tymor yng nghynghrair Gwynedd i dîm cyntaf Llanrug, ond fe all y clwb ymfalchio yn llwyddiant eu hail dîm ac hefyd yn eu polisi ieuenctid. Gweler adroddiad am y tîm dan 14 oed yn ennill cwpan Lonsdale.

'Reserves' Llanrug yw pencampwyr cynghrair Sain am y tymor, ac fe welir eu capten Gari Davies yn cofleidio'r tlws yn y llun isod. Fe gawsant hwythau gêm derfynol hefyd — ond colli fu eu hanes yng nghwpan Wil Evans ar gae Dyffryn Nantlle.

Yn ôl at yr ieuenctid, ac mae'r clwb, fel ag y mae yn wir Deiniolen a Llanberis, yn sicrhau gemau hefyd i'r



rhaid dan 16 oed a than 12 oed. Daeth yr hogia dan 12, sef tîm Dafydd Arfon, yn ail yn eu cynghrair hwy ac yn ail hefyd am Darian Mel Rice.

Yn ystod y tymor fe chwaraewyd 34 o gemau gan ennill 23 a thair yn gyfartal.

Fe sgoriwyd 168 o goliau yn erbyn 58 gyda Jonathan Davies yn rhwydo 70 o weithiau.

PYSGOTA:- Mae adroddiad H. P. Hughes yn ymddangos ar dudalen 23 y mis hwn.



Tîm dan 12 oed Llanrug

PELDROED DAN 14 OED FFEINAL TLWS LONSDALE

Ar gae Clwb Pêldroed Llanberis, Sadwrn, Mai 6, fe gynhaliwyd y gêm derfynol am y Tlws Lonsdale i fechgyn dan 14 oed — Cynghrair Gwyrfaï — am y tymor 1988/89. Y ddau dîm yn cystadlu am y Tlws eto eleni oedd Llanrug a'r deiliaid, sef Llanllechid.

Llanllechid oedd y ffefrynau gan mai un gêm yn unig oeddynt wedi ei cholli yn y Gynghrair drwy'r tymor, ond Llanrug aeth ar y blaen yn gynnar yn yr hanner cyntaf gyda gôl ar y blaen ychydig cyn yr egwyl gyda gôl arall gan Aled. Bu'r ddau dîm yn brwydro'n galed yn ystod yr ail hanner gyda chwarae da o'r naill ochr a'r llall ond parhau i fod yn ddwy gôl i ddim i Lanrug wnaeth y gêm ar ddiwedd amser ac 'roeddynt yn llwyr haeddu eu buddugoliaeth. Llonyfarchiadau i'r ddau dîm am gêm hynod o gyffrous.

Tîm Llanrug: Mark White, Scott Davies, Andrew Gardiner, Iolo Eilian, Aled Roberts, Neil Hughes, Gethin Parry, Osian Gwynedd, Simon Murphy, Aled Griffith, Rafael Ginsberg; Eilyddion: Dyfed Thomas, Gwion Llwyd, Meical Owen a Dylan Oswyn.

Mr. Irfon Thomas sy'n rhedeg y tîm dan 14 oed.

